



Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf




Cariad o beth
Cardi Bach

Rhifyn 423

Gorffennaf 2021

Pris £1



Colled fawr i'w deulu a'i gydnabod oedd marwolaeth sydyn y Parchg. Euros Wyn Jones, Llangefni ar ddiwedd Tachwedd 2018, yn 68 oed.

Mae'r llyfr yn gyfrol deyrnged iddo ac mae nifer fawr o'i gydnabod wedi sôn amdano fel ffrind ac fel pregethwr, athro a nifer o ddoniau eraill oedd yn rhan o'i gymeriad arbennig.

Bu'n athro ac hyfforddwr gweinidogion ers 1992 yng Ngholeg yr Annibynwyr Cymraeg.

Yn yr ardal hon cofir amdano yn cael ei ordeinio yn weinidog ar eglwysi Henllan, Capel Mair a Chwm Miles yn 1977, lle bu'n fawr ei barch am chwe blynedd cyn ymadael, ym mis Medi 1983, i fynd i Llangefni.

Priododd â Sioned oedd, yn nyrs yn ysbyty Bangor a bendithiwyd hwy a phump o blant. Bu'n ergyd fawr iddo pan fu farw ei briod yn 53 oed ym mis Chwefror, 2015.

Wrth gyfeirio at Bapur Bro Y Cardi Bach, Euros ynghyd â'r Parchg Tecwyn Ifan a ddechreuodd y fenter nôl yn 1979 a chofir am ei frwdfrydedd a'i help yn ystod y dyddiau cynnar hynny.

Dymunwn yn dda i'r teulu wrth i'r Llyfr Coffa gael ei gyflwyno i'w wyrion, Lleu, Arfon a Tegid. Coffa da am berson arbennig.

COFIO EUROS: Golygydd John Pritchard.

Cyhoeddwyd gan 'Cyhoeddiadau'r Gair' 2021. £9.99

Cylch Meithrin Hywel Dda yn dathlu 50 mlynedd y mudiad



Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Roy a Rhoswen Llewellyn sy'n dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Awst 12ed. Dymuniadau gorau oddi wrth holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.

Y CARDI BACH

Golygydd:	Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cadeirydd a Dosbarthwr	Eurfyl Lewis 01994 419495
Ysgrifenyddes:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd, Ffotograffydd, Dosbarthwr drwy'r post a Hysbysebion:	Roy Llewellyn 01994 448283
Trysorydd y Clwb '200':	Rhian White 01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Ffotograffydd Cynorthwyol:	Mel Jenkins 01994 240411
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y Dysgwyr:	Albie Abbott 01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrch i'm Llwybr:	
Cornel Coginio:	Winnie James 01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans 01994 448392 Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cornel Garddio:	John Davies 01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn Mis Mehefin

Wedi tipyn o bwyso a mesur a thynnu gwallt fy mhen ar brydiau, fe wnes i fynychu fy nigwyddiad torfol cynta' ers i gyfyngiadau Covid lacio fymryn. Waeth i fi gyfadde' mod i wedi gwylltio'n gacwn hefyd yn ystod y broses o hawlio fy lle yn Stadiwm Dinas Caerdydd, a theimlo cywilydd am hynny yn ddiweddarach. Do, fe wyliais i bêl-droedwyr Cymru yn cael gêm gyfartal yn erbyn Albania, yng nghwmni chwe mil o gefnogwyr mewn stadiwm sy'n medru dal bron i ddeugain mil.

Yn ystod yr wythnos flaenorol, bu tipyn o banics yn ein tŷ ni. Ar ôl archebu tocynnau dros y we yn ddigon di-drafferth, tra bo' ffrindiau wedi cael strach ryfedda, fe ddaeth hi'n amlwg yn go hwyr yn y dydd fod profion Covid ar eu ffordd drwy'r post. Roedd angen i ni gymryd y prawf yn syth a'i ddychwelyd cyn gynted â bo modd drwy flwch post penodol ar gyfer profion Covid. Diolch i'r drefn, roedd un o'r blychau hynny ar waelod y stryd. Ond roedd y profion yn Sanclêr a dau aelod o'r teulu bant, un yn gweithio yn Llangrannog a'r llall yn astudio ym Mangor. Daeth hi'n glir y byddai modd anfon y prawf y noson cyn y gêm, ac felly bu mymryn o dawelwch meddwl, ac amser digonol i gymryd y prawf.

Yn y cyfamser, fe wnes i ac un o'r meibion gymryd ein profion ni. Daeth sawl cais am brawf yr wythnos honno digwydd bod, a hwn oedd y pedwerydd i mi ei gymryd mewn tridiau, oherwydd amrywiol ofnyion. Roedd angen anfon y prawf penodol hwn mewn bocs. Daeth hwnnw yn fflat fel pancos, ac fe gymrodd hi fwy o amser i fi adeiladu'r bocs na chymryd y prawf ei hun. Roedd hi fel pe bawn i wedi prynu dodrefnyn o siop sy'n tarddu o Sweden!

I'r rhai ohonoch sydd eisoes wedi cymryd y prawf PCR, mi fyddwch chi'n gwybod nad yw e'n hynod o bleserus. A bob tro rydw i'n rwbio'r swob bum gwaith ar fy nghilchwarennau neu fy nhonsils, rydw i'n swnio union yr un fath â'r tarw sydd yn y cae gerllaw, heb anghofio'r tisian uchel wrth i'r swob fynd mor uchel i fyny'r trwyn, ry'ch chi'n dechrau poeni y gallai ddod allan drwy'ch clustiau.

Felly wedi tipyn o gwyno a 'sgyrnygu fe es i a'r mab a'n profion mewn bocsys wedi eu plygu'n berffaith i'r blwch post, cyn dechrau poeni a oeddem wedi gwneud popeth yn gywir. Ddeuddydd yn ddiweddarach, wedi iddyn nhw gyrraedd adre, bu'n rhaid i'r gŵr a'r mab hynaf fynd trwy'r un seremoni osgeiddig, cyn rhuthro i lawr i'r un blwch post.

Ddiwrnod y gêm, bu'n rhaid gadael am Gaerdydd yn y bore er nad oedd y gic gyntaf tan 5 y prynhawn. Daeth neges ar y ffôn i ddweud bod fy mhrawf Covid i eisoes wedi ei asesu ac yn negyddol. Roedd angen bod yn y stadiwm erbyn 3 o'r gloch. Gadawsom y car mewn maes parcio gwag, a dechreuodd y pedwar ohonom gerdded ar ein pen ein hunain heb gwmni arferol y miloedd swnllyd a fyddai'n arfer cyd-gerdded â ni. Gwisgwyd y mygydau wrth agoshau at y stadiwn. Roedd angen sganio'r tocyn oddi ar ein ffôn. Ac yna, fe aethom i mewn i stadiwm gwag a'r awyrgylch mor drawiadol o wahanol. Aethom i'n seddau, ac edrych ar eraill mewn clystyrau o'n hamgylch, gan hanner gobeithio nad oeddem yn adnabod unrhywun gan y byddai cadw pellter a pheidio mynd draw i ddweud shwmai yn lletchwith.

Profiad emosiynol oedd canu Hen Wlad Fy Nhadau. Y tro diwethaf i mi ganu'r anthem mewn man cyhoeddus, doedd gen i ddim syniad beth oedd o'n blaenau, diolch byth. Canwyd hi gydag angerdd, fel arfer. Na doedd yna'r un gôl. Do, mi fuodd hi'n her a hanner. Ac ar brydiau, roeddwn i wir yn cwestiynu a oedd hi'n werth yr holl ymdrech.

Ond fel y dywedodd rhywun o'r ardal wrtha i yr wythnos hon, mae'n rhaid i ni fyw gyda'r feirws yma, ac os ydy hi'n ddiogel, yna mae angen i ni fentro

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWM MILES:	Meinir Eynon 01437 563540
CWMFELIN	Nansi Evans 01994 448392
MYNACH:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
EFAILWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Mel Jenkins 01994 240411 j.jenkins736@btinternet.com Y Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN:	Meinir Eynon 01437 563540
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT:	Una Williams 01994 484372
PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilyr Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

ychydig. Dyw hi ddim yn rhwydd, ac mae angen amynedd Jôb. Ond wedi'r holl gwyno a gwylltio, mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi deimlo pwl enfawr o euogrwydd ar ddiwedd y gêm. Rydw i wedi goroesi Covid. Rydw i ymhlith y cynta i gael mynychu digwyddiad torfol yng Nghymru, ers i'r pandemig hwn droi'n bywydau wyneb i waered. Dyw eraill ddim wedi bod mor ffodus.

Mae colli hyder yn llawer haws na'i adennill. Rhaid cropian, cyn i ni gerdded y llwybr tuag at ryddid. A chyd-gerdded y llwybr hwnnw yw'r nod, gan sicrhau nad yw'r aelodau nerfus a di-hyder yn ein cymunedau yn cael eu hanghofio. Camau breision, neu fesul modfeddi – does dim gwahaniaeth. Ac mae arwyddeiriau Cymdeithas Bêl-droed Cymru mor berthnasol nawr ag erioed, Gorau Chware. Cyd Chwarae: Gyda'n Gilydd. Yn Gryfach.

Colofn Mis Gorffennaf

Ar fy meic

Rydw i wedi cyflwyno tipyn o newidiadau i'm bywyd dyddiol ers y cyfnod Covid gwallgo yma. Ac yn sicr, rydw i wedi rhoi mwy o sylw i faterion iechyd a chadw'n heini. Ac felly, wedi pwyso a mesur am bum munud cyfan, ar ôl i fi gael sbin rownd y bloc yng Nghaerfyrddin, mi brynais feic trydan neu E-feic. Wel, mae e wedi newid fy myd! Dim mwy o goesau tost, methu anadlu, llamu oddi ar y beic a'i wthio i gopa rhiwiau serth. Mae'r beic yma'n gwybod pan fo'r coesau'n gwanhau, ac mae'r wefr wrth wasgu'r botwm Turbo yn drydanol, coeliwch chi fi! Rydw i wedi cael ambell sylw pigog cofiwch gan ambell i Henri Heini sy'n hawlio nad oes angen colli diferyn o chwys ar gefn y beic hwn, a thaw tegan yw e yn hytrach na cherbyd ymarfer corff. Ond y gwirionedd ydy, rydw i'n llwyddo i seiclo ddeg gwaith ymhell-lach erbyn hyn... wel ddim cweit, ond yn sicr mae gwelliant sylweddol yn nifer y milltiroedd ar y cloc.

Rydw i wedi llwyddo i ddringo brynau serth Myddfai, seiclo ffwl pelt o Sanclêr i Rosgoch a lawr i Bentywyn a Thalacharn, heb anghofio'r daith i Lyn Brianne, tra'n stopio bob hyn a hyn er mwyn rhoi cyfle i fy annwyl ŵr gau'r bwlch rhyngom!

Ac un o'r profiadau mwyaf pleserus ydy gwylio gyrrwyr car, fan neu dractor yn aros amdanai yn ymyl yr hewl er mwyn rhoi cyfle i fi basio, a dechrau teimlo trueni drostai yn gorfod ymdopi â'r fath ddringo. Ar y pwynt hyn, pan dwi'n eu gweld nhw'n dechrau chwerthin ar fy mhen, wrth i fi golli stêm, dwi'n gwasgu'r botwm Turbo a gwibio heibio yn gyflymach nag Usain Bolt. Mae wynebau pob un yn bictiwr, cyn i'r geiniog gwympo, wrth iddyn nhw weld y bocs trydan o dan fy mhenglin. Ydy, mae'r beic yma'n adloniant pur hefyd.

Y gwirionedd ydy, ry'n ni i gyd angen yr hwb bach ychwanegol yna weithiau mewn bywyd, yr angen i bwysu ar ysgwydd rhywun arall a chael cefnogaeth pan fo taith bywyd yn heriol. Dyna sydd wedi ein cynnal ni gydol yr 16 mis diwethaf. Fedrwn ni ddim eistedd ysgwydd wrth ysgwydd wrth reswm, nac estyn llaw. Ond er gwaethaf hynny, ry'n ni wedi llwyddo i fod yn gefn i'n gilydd o bellter. Ac i'r rhai ym mro'r Cardi Bach sy'n teimlo'n unig ar brydiau, rhannwch hynny gydag eraill. Mae wastad rhywun wrth law yn ein cymuned i fod yn gwmni ac i rannu baich. Neu be am fynd allan i'r ardd a chwifio eich llaw os oes cymdogion gerllaw? Ac os welwch chi fi yn hedfan heibio ar fy meic gwefr – eiddiol (!) rhowch waedd. Mae brecs ar y beic hwn hefyd cofiwch!

Iola Wyn, San Cler

LEWYRCH I'M LLWYBR

gan y Parch. Aled Gwyn

Gwyddom fod rhai yn ardal y Cardi Bach wedi gorfod wynebu effaith ffyrnicaf Covid-19, a rhyfeddwn at eu dewrder. Erbyn hyn mae ambell arwydd bod cyfyngiadau misoedd y pandemig yn dechrau cael eu llacio. Rhoddwyd hawl i gynulleidfaoedd ganu emynau, ond eu bod yn gwneud hynny'n unig tra'n parhau i wisgo mwgwd. Dros y misoedd aeth yr emyn yn fud, a dim ond ei ddarllen oedd yn cael ei ganiatáu. Ond diolch byth roedd gennym raglenni radio a theledu fel Caniadaeth y Cysegr a Dechrau Canu. Ymhlith y cymanfaoedd ysbrydoledig a ddarlledwyd oedd yr un o Landysilio dan arweniad John Davies.

Efallai bod yr atal fu ar ganu emynau wedi bod yn help i ni feddwl, yn fwy nag erioed, am ystyr geiriau emyn, a gwerthfawrogi cyfoeth cerddoriaeth tonau ein hemynau. Mae'r emyn yn sicr yn un o gerrig sylfaen ein traddodiad Cristnogol. Gwawdiwyd y Cymry unwaith am fethu codi meddylwyr Cristnogol mawr ond atebodd un yn gadarn gan ddweud, "Darllenwch ein Beirdd", gan awgrymu fod yr emyn yn ganolog ym mywyd y Cymry fel mynegiant o'u cred. Yn ôl y diweddar Hywel Teifi Edwards, "totem pole" y Cymry ar un adeg oedd yr harmoniwm yn y parlwr, a Swm y Jiwibili a'r Llyfr Emynau ar yr astell, a theulu a ffrindiau yn dod at eu gilydd i forio'r gân. Hyd yn oed yn ein dyddiau ni mae apêl yr emyn yn dal, a sawl un yn ein hannog i barchu cyfoeth ein hemynau. Wrth i ni nawr gael yr hawl i ganu emynau unwaith eto cofiwn anogaeth y Beibl i ni ganu â'r ysbryd a chanu â'r deall hefyd.

Natur

Blodau gwyllt natur- pob lliw, pob llun
yn harddu'n ffyrdd trwy'r wlad.
Prydferthwch gwyllt, heb drefn dyn
yw'r harddwch mwyaf un.

J.H.

GWENLLIAN

Ar y 7fed o Fehefin 1337 ym Mhriordy Sempringham, Swydd Lincoln, bu farw Gwenllian, unig blentyn Llywelyn ap Gruffudd, yn anymwybodol o'i threftadaeth Gymreig.

Dim ond ychydig fisoedd oedd Gwenllian pan laddwyd ei thad, Llywelyn ein Llyw Olaf, gan filwyr Edward I, a bu farw ei mam, Eleanor de Montfort, yn ystod ei genedigaeth, felly daeth dan warchodaeth ei hewythr, Dafydd ap Gruffudd. Amgylchynwyd Gogledd Cymru gan fyddin Lloegr, a chafodd Dafydd ei gipio a'i ladd yn yr Amwythig. Cymerwyd Gwenllian gan Edward a'i hanfon i Briordy Gilbertine yn Sempringham, er mwyn ei rhwystro rhag priodi a chael meibion a allai fynnu'r hawl i dywysogaeth Cymru. Dewiswyd Sempringham gan ei fod mewn man anghysbell a chan fod y Gilbertine yn urdd lle cai'r lleianod eu cadw o'r golwg y tu ôl i waliau uchel.

A hithau wedi'i chymryd o'i gwlad frodorol mor ifanc, ddysgodd Gwenllian byth mo'r Gymraeg, oherwydd fel "Wentliane" fyddai'n ysgrifennu ei henw. Ond cafodd ei chysylltiad brenhinol ei gydnabod o leiaf unwaith gan Edward pan ofynnodd i'r Pab am arian ar gyfer Priordy Sempringham gan ddweud "...herein is kept the daughter of the Prince of Wales, whom we have to maintain."

Mae carreg goffa newydd o lechi glas Cymreig i Gwenllian yn Sempringham a hefyd ceir plac ar gopa'r Wyddfa.

Dyma garreg newydd sydd wedi ei gosod i goffau Y Dywysoges Gwenllian rai dyddiau nôl yn Sempringham.



Telerau hysbysebu yn Y Cardi Bach

	D/G	LLIW
Tudalen llawn (A4)	£60	£100
Hanner Tudalen	£30	£50
Cwarter Tudalen	£15	£25
Sgwar 6cm x 6cm	£5	£10

IFAN DAVIES Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319



CYSTADLEUAETH gan John Arfon

Daeth nifer dda unwaith eto o atebion i gystadlaethau Mawrth/Ebrill a diolch ichwi i gyd am gystadlu.

Dyma atebion y rhan gyntaf sef cloc y cwch gwenyn.

1. Canllaw, 2. Castell, 3. Tystio, 4. Croten, 5. Pennod, 6. Llofnod, 7. Lloerig, 8. Triawd, 9. Glawio, 10. Gogledd, 11. Pleser, 12. Gerllaw.

Dyma atebion yr ail ran sef enwau llynnoedd o'r pad teliffon.

1. Fyrnwy, 2. Brenig, 3. Clywedog, 4. Ogwen, 5. Gwynant, 6. Tegid, 7. Crafnant, 8. Brianne, 9. Llydaw, 10. Geirionydd, 11. Alwen, 12. Eiddwen, 13. Padarn, 14. Syfaddan, 15. Dinas, 16. Cwellyn, 17. Idwal, 18. Claerwen, 19. Dulyn, 20. Pontsticil.

Llongyfarchiadau ichwi ar ganfod y rhain am fod nifer ohonynt yng Ngogledd Cymru.

Y cyntaf allan o'r het y tro hyn ac sy'n ennill y wobr o £5 oedd Olwen Gibbon, Brynberllan, Heol Llysonnen, Caerfyrddin gyda Eilyr Thomas, Y Fedwen Aur, Llandysilio yn ennill yr ail wobr o lyfr. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir :

Peter Crowdie, San Cler; Dorothy Williams, Efailwen; Eric Hughes, Phyllis Hughes, Nesta Rees, Huw Davies, Pwlltrap; Hevina Jones, John Lewis, Meidrim; Jane Evans, a Tegwen James, Blaenwaun.

Dyma atebion y cwrosw a'r chwilrif Mawrth/Ebrill

O	X	X	O	O	X
O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X
O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X
X	O	O	X	X	O

6	1	4	9	3	2	7	5	8
7	8	2	4	5	6	1	3	9
3	5	9	1	7	8	4	6	2
4	3	5	6	8	1	9	2	7
2	7	8	3	9	5	6	1	4
9	6	1	2	4	7	5	8	3
5	4	6	8	2	9	3	7	1
1	2	3	7	6	4	8	9	5
8	9	7	5	1	3	2	4	6

Dyma Cwrosw a Chwilrif i'ch diddori y mis hwn

				X	
O	O				
					X
	O		O		
O					X
		X		X	

		5			7			
	9	6	1				3	
4		2		3		1		6
	4		8					
5		3		9		7		1
	6				3		4	
3				4		6		2
		8			2	9	7	
			7			5		3

Ceir tair cystadleuaeth ichwi y tro hwn, a dwy ran i bob un. Os am ennill y gwobrau mae'n rhaid anfon y ddwy ran i bob cystadleuaeth a ddaw i law. Cynigir £5 i'r cyntaf a llyfr i'r ail ym mhob cystadleuaeth.

A(1) Y gystadleuaeth gyntaf yw datrys y Rhifair

Mae pob rhif yn y grid yn ateb i wahanol lythyren o'r wyddor Gymraeg, e.e. os byddai rhif 10 yn lythyren D, yna rhaid yw rhoi D i mewn pob tro y mae rhif 10 yn cael ei ddangos.

Er mwyn rhoi dechreuad ichwi, y cliw am yr ateb sydd i fod yn y blychau llwyd yn y rhifair yw "tynnu coes" (7).

Gweithiwch yr ateb hwn allan ac yna cewch y llythrennau sy'n cyfateb i'r rhifau sydd yn y sgwariau llwyd. Wrth roi yr un atebion i'r rhifau hyn pob tro yn y grid a gyda'ch gwybodaeth o eiriau Cymraeg, gallwch lenwi y sgwariau i gyd a chwblhau y Rhifair. Fel yr ydych yn canfod y llythrennau, llenwch hwynt yn y sgwariau priodol ac hefyd yn y grid odditano, ac hefyd croeswch allan y llythrennau o'r wyddor a ddangosir odditano. Gallwch weld felly pa rai fydd ar ôl. Gyda llaw, mae pob un llythyren a ddangosir o'r wyddor yn cael eu defnyddio yn y Rhifair. Gobeithiaf yn fawr y gwnaiff y pôs hwn eich diddori. Rwy'n siwr y gwnewch ei ddatrys mewn llai o amser na wnes i i'w greu.



	5	1	2	19	19	25		13	12	23	22	2	7	
		2		6		4		5		26		19		
22	4	3		4	2	8	15	19		5	19	3	5	8
7		4		26				21		9		6		12
5	9	5	25		24	15	20	12	26		2	24	12	26
6		6				27		8		23		25		2
	11	7	6	12	8	5	10			5	16	10	2	7
1				21		19		19		6				6
5	17	25	7	19			1	15	16	7	5	2	18	
19		7		6		14		20				13		18
10	25	17	12		3	5	21	25	7		11	5	6	7
2		5		14		8				6		27		25
19	2	9	5	25		26	4	1	25	10		8	15	17
		12		20		12		5		12		2		
	11	26	12	7	15	19		16	5	8	5	7	9	

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P R Rh S T Th U W Y

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14
---	---	---	---	---	---	---	---	---	----	----	----	----	----

15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27
----	----	----	----	----	----	----	----	----	----	----	----	----

A(2) Dyma'r ail ran sef "Dilyn y llwybr"

Ceisiwch ddatrys y cliwiau, a rhoi pob ateb yn eu llefydd priodol gan ddilyn y llwybr igam ogam yn y grid. Mae pob un ateb yn bedair llythyren o hŷd, ac mae llythyren olaf y gair cyntaf yr un fath a'r llythyren gyntaf yr ail ateb, ac yn y blaen.

1			2			3
	9			10		
	14			15		
8					11	4
			16			
	13			12		
7			6			5

Dyma'r cliwiau

- | | |
|--------------------|------------------|
| 1. Fflangell | 9. Segur |
| 2. Tad Pryderi | 10. Gerwin |
| 3. Gwesty | 11. Llefain |
| 4. Enlli neu Manaw | 12. Lliw ffrwyth |
| 5. Hoe | 13. Angerdd |
| 6. Aderyn du | 14. Distrywio |
| 7. Llam | 15. Achlysur |
| 8. Costus | 16. Anifal fferm |

Cymerir ch, dd, ff, ac yn y baen fel un llythyren.

Wedi ichwi gwblhau y grid, dylech gael ateb sy'n gysylltiedig â Chymru trwy ddarllen y blychau llwyd.

B (1) Rhan gyntaf yr ail gystadleuaeth yw "Tri yn un"**Bydd rhaid ichwi fod yn ofalus**

A fedrwch ddarganfod enwau ugain o lefydd yng Nghymru, trwy gysylltu tri gair gyda'u gilydd i roi un lle inni. Er enghraifft, os byddai gennych y geiriau canlynol:- Aber, aeth, hir, og, wyth, yst - gallech greu y llefydd hyn sef Aberystwyth a Hiraethog. Mae'n rhaid defnyddio pob un o'r geiriau a ddangosir isod.:

aber, aeth, am, ar, au, beth, bettws, blaen, ble, bryn, caer, capel, castell, cefn, ceiliog, craig, croes cwm, chi, da, deg, dre, dros, drws, dwr dwy, emlyn, erw es, fi, ffos, gwyn, gyfyl, hen, hir,hyd, llan, llen, maen, mair, man, mawr, newydd, ol, parc, pen, pont, porth, rhos, rhyd, sarn, tal, tras, tre, tri, ty, we, y, yd, yr.

Bydd rhaid ichwi fod yn ofalus ac amyneddgar iawn wrth ddatrys y pŵs uchod, ac felly rwyf wedi rhoi ychydig mwy o gymorth ichwi. Ceir y llefydd hyn yn y siroedd canlynol:

Caerfyrddin (6); Ceredigion (4); Gorrlewin Morgannwg (2); Gwynedd (2); Conwy (2); Canol Morgannwg (1); Blaenau Gwent (1); Powys(1); a Clwyd (1)

B(2) Yr ail ran yw datrys y pŵs mathemategol

Beth yw'r rhif sydd i fod yn lle'r marc cwestiwn.

B	B	A	B	97
B	C	C	C	80
C	B	A	A	
C	A	B	C	
93				?

Y trydydd pŵs yw datrys yr atebion cywir i'r chwilrifau.

C(1)

Mae pum grid yn y Chwylrif X ac mae eisiau llenwi pob grid fel bod pob rhes a cholofn o'r blychau 3x3 yn cynnwys y rhifau o 1 i 9. Fe welwch fod y grid canol yn gorgyffwrdd

â'r gridiau o'i hamgylch a dylai hynny fod o help ichwi i gwblhau y dasg.

Cofiwch: peidiwch a cheisio datrys pob grid yn eu tro oherwydd mae eisiau taclo y pôs yn gyfan os am lwyddiant. Cymerwch ofal mawr oherwydd mae hwn yn galed - cymerais i ddwy awr i'w gwblhau (problem y gweld).

[illegible]

C(2) Yr ail ran yw datrys y Chwilrif Mawr yma

Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a 'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1 i 12.

	5		4	6		1	12		11	3	
2				10					8	7	
	10					9					
9	11	2				8					
6				2							10
				7	1	10	4		2		6
4							1				3
	12	1			3				5	8	
5	2		3	4	6						7
			5				7	6			4
		3	7		2				1	5	
1	4	8					11	3		9	

Anfonwch eich cynigion ynghyd â'ch enw , cyfeiriad a'ch rhif ffôn i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX erbyn Hydref 1af 2021 os gwelwch yn dda. Rydych yn gweld felly fod digon o amser genych dros yr Haf i gwblhau y posau hyn. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 eleni os am y siawns o ennill un o'r gwobrau a gynigir. Bydd £5 i'r cyntaf a llyfr i'r ail yng Nghystadlaethau A, B ac C.

Mae llawer o bobl yn cwyno mai yr un rhai sy'n ennill yn aml ac mai yr un enwau sy'n cystadlu bron pob tro. Wel, does ond un ffordd i newid hyn a hynny yw cael llawer mwy ohonoch i ddefnyddio eich ymenydd a chystadlu yn rheolaidd.

NEV DAVIES
Plant Hire
LLOGI PEIRIANNAU
Penygaer, Clunderwen. SA66 7ND
*Arbenigwyr mewn
Gwaith Tir*
ND  07970 830802

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300



Cwmni Adeiladu
BURNS
Building Co

Arbenigwyr mewn gwaith
GWYDR FFEIBR

*Cysylltwch a ni os am greu neu atgyweirio
TO GWASTAD neu HAFAN*

Ffon: 01834 860686



Rob a Liz Burns
Greenwood
Cold Blow
Arberth

Blodau

Ar gyfer achlysuron arbennig

Meryl James,
Dyffryn Taf,
Pengawse,
Hendygywn ar Daf.
SA34 0RE.
Ffôn: 01994 240 350
Symudol: 07977 553796
Ebost: meryljames534@btinternet.com



Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir
Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n weddol iach ac yn ddiogel. Braf yw gweld cynifer wedi ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf a chroeso cynnes hefyd i sawl aelod newydd. Er hyn, mae sawl aelod ffyddlon heb ymaelodi eleni eto. Gofynnaf yn garedig i chi wneud, drwy gwblhau'r ffurflen sydd ar dudalen 37 yn y papur hwn. Bydd pawb sy'n ymaelodi'n cael cyfle i ennill yn fisol. Diolch i chi am eich cefnogaeth i sicrhau dyfodol ein papur bro.

Dyma restr o'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-

Jim a Mair Davies, 14 Gors Fach, Pwll-Trap
Meirion Morris, 38 Maes y Bryn, San Clêr
Denzil Davies, Maes yr Onnen, Gerddi'r Ffynnon, Hendygywn
Gwyneth Davies, Maes yr Onnen, Gerddi'r Ffynnon, Hendygywn
Eirian Davies, Maes yr Onnen, Gerddi'r Ffynnon, Hendygywn
Eilyr Thomas, Y Fedwen Aur, Llandysilio
Rayann Thomas, Penfedw, Boncath
Rhiannon Thomas, 4 Llys Coed, Llangynin
Eleri, James, Nansi a Nel Williams, 2 Burlington Terr., Caerdydd
Edmund Jenkins, Brynonnen, Pwll-Trap
Lily Phillips, 64 Maes-yr-Yrfa, Crymymch
Eifion Wyn Nicholas, 74 Millfields Close, Pentlepoir
Menna Nicholas, 74 Millfields Close, Pentlepoir
John Davies, Pen-yr-Ardd, Hendygywn
Nesta Davies, Pen-yr-Ardd, Hendygywn
Kay Williams, Talar Deg, Llanboidy
Sefydliad y Merched, Llanwinio
Bryan a Mair John, Pen y Berth, Llandysilio
Geraint Phillips, Myddfai, Pwll-Trap
Gerwyn Eynon, Penrallt Fach, Login
Maureen Eynon, Penrallt Fach, Login
Geraint a Ray Griffiths, 16 Hafod Cwnin, Caerfyrddin
Rhys a Glyn Biggs D/O Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach
Lloyd a Mari Hart, D/O Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach.
Anne Davies, Ffynnon Seiri, Llangynog
John Holdcroft, Ger-y-Gors, Pwll-Trap
Eiryth Holdcroft, Ger-y-Gors, Pwll-Trap
Siân Davies, Kings, Boncath
Angela Marie, Yr Hen Swyddfa Bost, Trelech

Leia Jenkins, D/O Glantaf House, San Clêr
Iori a Deina Jenkins, D/O Glantaf House, San Clêr
Liz Llewellyn, Dôl Awel, Efailwen
Emyr Vaughan, Eirianfa, Bancyfelin
Mared a Heledd Williams, Bryneithin, Bryn Iwan
Elfed John, Tiron, Llandudoch
Gerwyn Jones, Bryn Pedyll, Cynwyl Elfed
Elfed Owen, Lan, Cefn y Pant
Allen a Heulwen Lewis, Cefn y Pant House
Delyth Owens, Cartref Uchaf, Crymymch
Betty ac Einir Evans, Brynhyfryd, Llandysilio

Dyma enillwyr lwcus y ddau fis diwethaf:-

Mai:

48 - Ceginau Clasurol Hendygywn - £20
622 - Brian ac Eirwen Davies, 8 Parc Llwynceilyn,
Pwll-Trap - £10

Mehefin:

527 - Audrey Davies, Brynstop, Crymymch - £20
489 - Taliesin Scott Robinson, Yr Alban - £10
Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

Rhian



Cymdeithas Capeli Bro

Hywel Dda

Taith Gerdded

Bore Dydd Sadwrn

11eg Medi 2021 am 10 yb

Dechrau a gorffen yng

Nghapel Bethel, Mynachlogddu

Yr elw i'w rannu rhwng:-

"Ymchwil Canser Cymru"

"Banc Bwyd Lleol (Trussell Trust)"

"Meddygfa Rhiannon, Arberth"

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concridd
Paneli ac Estyll Concridd
Cysylltwch â Wyn Davies
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444
01994 230456

eich canolfan gofal iechyd lleol
Cyngor rhad ar gael gan
ein staff profiadol

T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

MERCHED Y WAWR

Cangen Hendygwyn

Ar ôl misoedd o gysylltu gyda'n gilydd dros y ffôn, dychmygwch ein llawenydd o gael cyfarfod yn y cnawd yng ngardd Margarette ym Maesyffynnon prynhawn dydd Iau diwetha'! Mis Medi llynedd oedd y tro diwetha i ni lwyddo i wneud hyn. Roedd llawer o ddala lan i'w wneud ond fe lwyddwyd hefyd i wneud rhai penderfyniadau.

Byddwn yn dechrau rhaglen y flwyddyn nesa' gyda chinio dathlu Hanner Canmlwyddiant y gangen ar Fedi 21ain ym Mhant yr Athro, Llansteffan am un o'r gloch. Bydd croeso i unrhyw gyn-aelod i ymuno gyda ni yn y dathliad.

Llwyddwyd hefyd i gasglu syniadau am raglen i weddill y flwyddyn a phenderfynwyd bod y swyddogion yn aros yr un peth. Y newid mawr yw ein bod yn mynd i gyfarfod am hanner awr wedi dau yn y prynhawn o hyn ymlaen yng Nghanolfan Hywel Dda yn hytrach nag am hanner awr wedi saith y nos.

Cydymdeimlwyd â Mair Mathias ar golli ei brawd, Eirwyn a danfonwyd ein dymuniadau da am wellhad buan i George, sef gŵr ein trysorydd, Ann Glanville.

Roedd pob un wedi dod a'i the ei hunan ac felly treuliwyd gweddill y prynhawn yn cloncan a joio cwmni'n gilydd.



Cangen Merched y Wawr Hendygwyn yn cyfarfod yng ngardd Margarette Hughes.

Cangen Beca

Ar y 10fed o Fehefin daeth rhai o'r aelodau i gyfarfod cyntaf y gangen ers dros flwyddyn. Gwnaethom gwrdd yn y prynhawn yng Nghaffi Beca.

Yn gyntaf gwnaethom sefyll am funud o dawelwch i gofio am Avril Owen a fu farw ddechrau mis Mai. Cofion cynnes amdani.

I ddechrau gwnaeth Gloria Gibby drosglwyddo swydd Llywydd y Gangen i Eryl George. Diolchwyd i Gloria am ei gwaith yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio. Dymunwyd yn dda i Eryl wrth iddi gymeryd trosodd.

Bydd Angharad ac Eilir yn aros yn eu swyddi fel ysgrifennyddes a thrysoryddes am y ddwy flynedd nesa.

Ar ôl cael gwybod sefyllfa ariannol y gangen, gofynnodd Eryl am syniadau er mwyn paratoi rhaglen y flwyddyn sydd i ddod. Cawsom nifer o syniadau gan yr aelodau. Gobeithio nawr y byddwn yn medru cwrdd yn fisol fel ein harfer cyn y Cofid.

Yn ôl dymuniad yr aelodau, byddwn yn cyfarfod am 3 o'r gloch y prynhawn o hyn ymlaen. Felly bydd y cyfarfod cynta ar y 9fed o Fedi am 3 o'r gloch yng Nghaffi Beca pryd bydd Hazel Thomas, Swyddog Datblygu Clybiau Ceredigion a Phenfro yn ymweld â ni. Mae croeso i bawb i ymuno gyda ni. Eistedd lawr wedyn a chael paned, cacen a chlonc cyn troi am adre. Diolch i Robert am bob cefnogaeth.

Cangen San Cler

Fe wnaeth yr aelodau gyfarfod am banded, cacen a chlonc yng ngardd Beti-Wyn ar brynhawn Sadwrn, Mehefin 19eg. Roedd yr haul yn tywynnu a braf oedd cael cwrdd wyneb i wyneb am y tro cyntaf ers misoedd. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Eileen, ac amlinellodd y gweithgareddau niferus a drefnwyd gan y mudiad yn genedlaethol ac yn rhanbarthol dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn rhestr faith gyda nifer o'r aelodau wedi ymuno gyda sawl digwyddiad ar y wê a chael mwynhad o'r arlwy. Cafwyd prynhawn hwylus a roedd yn hyfryd cael sgwrs eto.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar brynhawn Sadwrn, Medi 11eg am 2.30 o'r gloch eto yng ngardd Beti-Wyn. Erbyn hynny, gobeithio, y byddwn yn gallu gwneud trefniadau gogyfer â'r tymor nesaf. Croeso i bawb, aelodau presennol neu aelodau newydd. A wnewch chi gysylltu â Iona 01994 230585 os ydych yn bwriadu dod. Bydd yn braf eich gweld.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Hazel Charles Evans, Llandybie. Hazel oedd Llywydd cyntaf Cangen San Cler pan sefydlwyd y Gangen nôl yn 1971. Coffa da amdani.



Cangen Merched y Wawr San Cler yn cyfarfod yng ngardd Beti-Wyn ym Mis Mai.

CORNEL Y DYSGWYR

Albie Abbot

Shwmae bawb, gobeithio bod chi'n cadw'n iach.

Llenwch y bylchau a ffurfiau cywir yr ansoddair mewn cromfachau.

e.e. Hwn yw'r coffi **cryfaf** (cryf)

Mae nhw'n(twp) o lawer na Ffred.

Ann fyddai'r.....(da) fel cadeirydd.

Mae bwyd y Golden Wok(da) a bwyd y Taj Mahal.

Dyma'r tywydd(drwg) ers blynyddoedd.

Mae Caerdydd yn(mawr) nag Abertawe.

Fi yw'r.....(tal) yn y teulu.

Roedd dy wyneb di.....(gwyn) â'r eira.

Prynwch y tocynnau(rhad) posib.

.....(da) hwyr na(hwyr).

Hi yw'r ferch (enwog) i ddod o'r ardal.

Mae Llundain yn(bach) na Dinas Meicsico.

Dyma'r llyfr.....(diddorol) yn y gyfres.

Mae Ffred a Gordon(drwg) a'i gilydd.

Mae'r rhan(mawr) o bobl yn fodlon talu.


Sa i'n lico chwaraeon(mawr) a hynny.

P'un yw'r(trwm)?

Cysefin	Cyfartal	Cymharol	Eithaf
da	cystal â	gwell na	y gorau
drwg	cynddrwg â	gwaeth na	y gwaetha
mawr	cymaint â	mwyr na	y mwyr
bach	cyn lleied â	llai na	y lleia
rhad	mor rhad â/cyn rhated â	rhatach na	y rhata
uchel	mor uchel â/cyn uchod â	uwch na	yr ucha
isel	mor isel â/cyn ised â	is na	yr isa

Cornel Llên

EIGRA gan Eigra Lewis Roberts



Mae'r llyfr hwn yn wahanol i lyfrau 'Hunangogfiant'. Mae'n cyfaddef nad yw yn datgelu popeth am ei bywyd personol –

Mae gennyf ystafell
Nas cenfydd y byd,
Ac ynddi y cloaf
A garaf i gyd.

Mae rhai pethau yn eiddo i'r awdur ei hun; mae'n sôn am ei dyddiau ysgol a'r Coleg. Fel unig blentyn cafodd y cyfle i ymarfer ei doniau llenyddol trwy gymorth ei rhieni. Mae Eigra yn awdur toreithiog ac wedi cyhoeddi nifer fawr o lyfrau; ysgrifennu dramau (megis 'Minafon' a 'mis o Fehefin') a fu fel cyfresi ar y teledu rhai blynyddoedd yn ôl.

Cafodd ei choroni yn Eisteddfod Abertawe yn 2006. Mae'n sôn am ei theulu, ond yn bennaf, llyfr am ei gwaith llenyddol yw Hunangogfiant Eigra Lewis Roberts.

Gwasg y Bwthyn. Pris £9.95

LD

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygywyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

CEGINAU CLASUROL

Classic Kitchens
Hendygywyn ar Daf

Ceginau ac Ystafelloedd Gwely wedi eu gwneud i fesur	David a Jackie John Uned 1-3 Stad Ddiwydiannol Hendygywyn ar Daf
---	---

Ffôn: 01994 240176 • Ffacs: 01994 240572


CBS

CRYMYCH

ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

Gair o Gysur

Golygwyd gan Elin Angharad Davies



Mae'r profiad o golli rhywun annwyl yr un fath o un genhedlaeth i'r nesaf. Yr un ydi'r boen, a'r galar a'r hiraeth. Ond mae'r arferion cymdeithasol sydd ynghlwm â chydymdeimlo mewn profedigaeth wedi newid.

Yn yr hen ddyddiau'r arfer oedd mynd i ymweld â'r profedigaethus gyda hanner pwys o de neu dun salmon, neu ynteu anfon llythyr neu gerdyn. Erbyn heddiw mae pobol yn aml yn anfon blodau, ffonio neu decstio, neu'n anfon neges trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol – Facebook a trydar – canolbwynt bywyd cymdeithasol cymaint ohonom. Yn aml gwelir rhes o galonnau a chusanau ar y negeseuon hynny, ond dim un gair. Ac eto mae lle i eiriau.

Mae Gair o Gysur yn gyfrol gyfoes, gan adlewyrchu natur ein cymdeithas heddiw. Ceir yma gerddi, neu ddyfyniadau o gerddi crefyddol ac emynau, a dyfyniadau o'r Beibl hefyd, ochr yn ochr â chaneuon cyfoes gan feirdd mor amrywiol â Dewi Pws, Meinir Gwilym, Mei Gwynedd a Lleuwen Steffan. Mae'r caneuon o waith mam Elin, Margaret Edwards, yn 'canu yn y co', a cherddi Elin ei hun yn cyffwrdd y galon. Er bod y cynnwys yn ddwys mae'r ffotograffau o waith Iestyn Hughes, Lisa Elan Davies ac Aled Hall yn hyfryd ac yn codi'r ysbryd.


Dyma gyfrol werthfawr – wrth ddewis neges addas i'w rhoi ar gerdyn, neu ddarlleniad ar gyfer gwasanaeth coffa neu angladd, neu i'w rhoi'n anrheg i ffrind.

Cyhoeddwyd y gyfrol er budd yr elusen meddwl.org

Mae Gair o Gysur ar gael yn eich siop lyfrau leol neu o gwales.com

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon Clawr caled £9.00

Llyfr gan Y Parchg Kingsley Taylor, Hendygywyn



Yn fuan ar ôl y clo cyn- taf llynedd, dechreuais ysgrifennu e-bost dyddiol i'r pymtheg eglwys o Clydau i Bent-ywyn. Rwy'n Ddeon Ardal Gweinidogaeth Leol, yn anfon negeseuon o obaith mewn cyfnod anodd. Dechreuodd pobl eu hanfon at eraill a dechreuodd pobl ofyn am

gael eu hychwanegu at y rhestr. Cyn bo hir roedd y negeseuon hyn yn mynd i wledydd mor bell i ffwrdd â Chanada ac Awstralia.

Ar ôl i ni gael gwasanaeth awyr agored yn St Mary's, Hendygywyn, mi wnes i gasglu'r e-byst gyda'u gilydd a llwyddo i'w cyhoeddi fel llyfr o'r enw 'Reflections: Circular email from a Country Vicar under Lockdown'. Fe wnes i barhau i ysgrifennu ac erbyn hyn rwyf wedi cael ail lyfr wedi'i gyhoeddi ar ôl blwyddyn gyfan o e-byst, sef 'Reflecting: Continuing emails from a Country During the Pandemic'.

Gyda'r ymateb a gefais gan bobl a dderbyniodd yr e-byst, roedd yn teimlo fel pe baem ar bererindod gyda'n gilydd ac er nad oedd yn bererindod corfforol roedd yn rhithiol o leiaf. Roeddwn i eisiau dod â hyn i ben drwy gael cynifer o bobl a phosibi gwrdd yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi ac ymweld â Chysegwr Dewi Sant a cael gwasanaeth yno. Cynhaliwyd y gwasanaeth ddydd Sadwrn, 19 eg Mehefin a byddai hyn wedi bod yn ddiwedd addas i'm negeseuon ond byddaf yn parhau i ysgrifennu oherwydd nid yw'r broblem wedi diflannu eto.

 Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
 Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
 **ALLPUMP SERVICES**
ARBENIGWYR MEWN PWMPs FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŪR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd Llangynin
San Clêr SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
 FFÔN:-
01994 240857 

BANCYFELIN

Dathlu 200 mlwyddiant Cana, Bancyfelin

Ar brynhawn heulog o Fehefin 2021, ymlwybrodd aelodau a phlant eglwys Cana, Bancyfelin yn dawel fach i Lwynderw, tŷ sy'n sefyll daflad carreg o Gana tuag at gyfeiriad Caerfyrddin, i gynnal cwrdd gweddi. Nid dyma'r tro cyntaf i'r saint ymlwybro'n dawel i Lwynderw. Digwyddai hyn mor bell yn ôl â 1815 pan fyddai cyrdau gweddi ac Ysgol Sul yn cael eu cynnal ar amryw o aelwydydd yr ardal, cyn bod sôn am sefydlu achos. Bu pregethwyr cynorthwyol yn ymweld â'r aelwydydd yn gyson nes dechrau'r gwaith o godi Capel Cana, ar ddarn o dir lle teflid sbwriel a gwastraff yr ardal. Bu cyfeillion yn cyrchu cerrig ychwanegol o'r cwar gyda cheffyl a chart er mwyn gosod sylfaen i'r capel. Wedi cwblhau'r gwaith o godi'r capel, corfforwyd eglwys yno gan David Peter y flwyddyn ganlynol.

A dyna'r rheswm dros ymlwybro i Lwynderw ar 13eg Mehefin eleni, sef i nodi 200 mlynedd ers sefydlu'r achos yng Nghana ac i ddiolch am ei thystiolaeth loyw i'r Arglwydd Iesu cyhyd.

Mae Covid-19 wedi amharu ar gynlluniau'r dathlu wrth reswm ond llwyddwyd, wedi gair o weddi yn Llwnderw, i gerdded yn un teulu i'r Capel gan werthfawrogi harddwch y wlad o'n hamgylch. Cynhaliwyd oedfa yn yr awyr agored ar dir y capel gyda haul Mehefin yn tywynnu arnom. Diolch i'r stiwardiaid am sicrhau trefniadau trylwyr iawn gan barchu rheoliadau Covid-19.

Cafwyd cyfraniad arbennig i'r dathlu gan blant yr Ysgol Sul a fu wrthi'n brysur yn paratoi capsawl amser a oedd yn cynnwys newyddion cyfredol Cana ynghyd â lluniau. Claddwyd y capsawl ganddynt ar dir y capel yn y gobaith y daw cenhedlaeth newydd arall i Gana ac agor y capsawl ryw ddydd gan werthfawrogi'i gynnwys.

Do, er y cyfyngiadau, cafwyd prynhawn bendigedig a chychwyn da i flwyddyn y dathlu.

Pan adeiladwyd Cana, dewis y bobl oedd gosod ffenestri clir yn yr adeilad fel y bo pawb o'r tu allan yn gallu gweld i mewn iddo, ond yn bwysicach fyth, fel y bo'r sawl sy'n cwrdd y tu mewn i'r adeilad yn gallu gweld allan i'r byd.

Er i'r ffyddloniaid gwrdd y tu mewn i Gana ers dwy

ganrif, nid gweledigaeth fewnblyg fu gan yr eglwys ar hyd blynyddoedd hir ei hanes. Yn hytrach, gweledigaeth fwy eang o lawer, ac awydd i fod yn offeryn yn llaw Duw i dystiolaethu i'r fro gyfan ac i'r byd. Wrth ddiolch am ddwy ganrif o dystiolaeth, diolchwn fod yr un weledigaeth yn dal i feddiannu calonnau aelodau Cana heddiw. Mae yma o hyd gymdeithas glòs a chynnes ac awydd ymysg yr aelodau i dystio i Iesu hyd eithaf eu gallu trwy'r cyfnod dryslyd a heriol hwn. Roedd pnawn Sul, 13eg Mehefin 2021 yn brawf o hynny.

Edrychwn ymlaen at gynnal ambell ddigwyddiad arall yn ystod blwyddyn y dathlu, os bydd amgylchiadau'n caniatáu.

Beti-Wyn James, Gweinidog



Tu allan i Lwynderw



Plant yr Ysgol Sul yn claddu capsawl ar dir y capel

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007



cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390





Cynnal oedfa yn yr awyr agored

Capel Bancyfelin



Mwynhaodd aelodau Capel Bancyfelin baned wedi'r oedfa ar lawnt y capel ar brynhawn heulog o fis Mehefin. Braff oedd cael cyfle i dorri gair a'n gilydd a mwynhau paned.

Gibeon

Cydymdeimlwn ag Emrys Morgan, Rose Harries a'r teulu ar farwolaeth brawd-yng-nghyfraith ac ewythr yn ystod y Gwanwyn.

Cydymdeimlwn â Billy ac Olive Davies, Bronygaer, Owen, Wendy a'u teuluoedd ar farwolaeth chwaer Billy, sef Nora Davies, Rhydygors a fu farw yn 95 oed. Roedd yn fodryb i Hilary a chydymdeimlwn hefyd â Hilary, Colin a'r teulu, Gwarwenallt. Cynhaliwyd ei hangladd ym mynwent Gibeon ar Ddydd Gwener, Mehefin 18fed. Cydymdeimlwn â'i theulu oll.

GWYDRIADAU DWBL
G.N.E.
 DOUBLE GLAZING
 TAI GWYDR
 LANDERI A
 FFASGIAU UPVC
 GWYDRIADAU EILAIDD
 BLYNYDDOEDD
 O BROFIAD
 GWAITH O SAFON
 UCHEL
FFôn: 01994 240688 Mobile: 07774 788349

FFENESTRI DRYSAU

 Gareth Edwards
 Derbyn
 Gerddi'r Ffynnon
 Hendygywn ar Dâf

AM Y DEWIS GORAU
 GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
 Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
 GWASANAETH DOSBARTHU
 AR GAEL

 Os ydych am i ni archebu eich
 presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
 Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
 Clunderwen. SA66 7NP

LOGIN

Calfaria

Myfyrdodau

Diolch o galon i'r canlynol am baratoi myfyrdodau diddorol a bendithiol ar ein cyfer yn ystod yr wythnosau diwethaf :- Parchedig Denzil John, Mr Hefin Wyn, Parchedig Euros Jones Evans, Mrs Sian Elin Thomas a Mrs Dwynwen Teifi.

Rydym yn gobeithio ail agor y capel ar ddechrau mis Medi, dyma ddyddiade yr oedfaon :-

Medi 5ed - Mrs Dwynwen Teifi -

Cymun 2yp

19eg - Parchedig Peter Thomas - 2yp

Hydref 3ydd - Mr Hedd Ladd Lewis -

Cymun 10.30yb

17eg - Parchedig Gareth Ioan 10.30yb

Cydymdeimad

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Rees a Russell Thomas, Beti Cato, Bethan Allen a Delyth Thomas ar farwolaeth eu chwaer Bronwen Jones, Arberth yn ddiweddar.

Penblwydd

Dymunwn benblwydd hapus i Edryd Eynon, Plas y Bedw fydd yn dathlu ei benblwydd yn 40 oed ar Awst 20fed.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i'r aelodau canlynol sydd yn anhwylus ar hyn o bryd :- Russell Thomas, Iris Morris, Arwel Jones, Les Llewellyn a Jean Jones.

Canolfan Ffynnonwen

Gobeithir cynnal diwrnod glanhau yn ystod mis Awst a bydd yr ysgrifennydd yn cysylltu ac aelodau'r pwyllgor.

Diolch i'r Cylch Meithrin sydd wedi gwneud defnydd da o'r Ganolfan a diolch i Huw Lewis am ei waith caled o gadw'r porfa dan reolaeth. Rydym yn wir obeithio byddwn yn gallu ail ddechrau ein gweithgareddau ym mis Medi.

Cylch Meithrin Ffynnonwen

Mae plant Cylch Meithrin Ffynnonwen wedi cael tymor prysur yn gwneud ystod eang o weithgareddau. Dyma nhw yn dathlu penblwydd y Mudiad yn hanner cant. Pawb yn joio'r wledd a'r dathlu. Dioch i Liz Lewis a'r tîm am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn.



Plant y Cylch yn dathlu 50 mlynedd Mudiad Meithrin

Ysgol Sul Nebo

Gobeithiwn ail gychwyn cynnal yr Ysgol Sul yn ysgoldy Nebo yn ystod yr Hydref, os fydd y Llywodraeth yn caniatáu.

Mae croeso cynnes i blant yr ardal ymuno â ni am 9.30 bob bore Sul pan ddechreuwn eto. Rydym yn cyfarfod ar Zoom ar hyn o bryd gyda Janice Morgan, sydd wedi bod yn wych yn cadw'r plant gyda'u gilydd yn ystod y pandemig.

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus iawn i Mary Ann Thomas, Crud yr Awel, Efailwen a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Cariad mawr oddi wrth Owen, Barry, Diane, Carrie-Ann a Robin. Hefyd yn dathlu ei benblwydd yn 50 oed fydd mab Mary, sef Barry. Penblwydd Hapus iawn iddo ef hefyd oddi wrth Mam, Owen, Diane, Carrie-Ann a Robin.

EFAILWEN

Dymuna Haulwen Morris, Swm y Nant, Glandy Cross ddiolch o galon i bawb am y llw cardiau, blodau galwadau ffôn, hefyd rhoddion i Meddygfa Taf, Hendygywn a dderbyniodd yn dilyn marwolaeth ei hannwyl ŵr Meirion. Diolch yn fawr i bawb.

Llongyfarchiadau i Eilir Davies, Ty Rhos, Efailwen ar achlysur ei phenblwydd yn 80 ddiwedd mis Mai.

Dymunwn benblwydd arbennig hapus i Nanse Thomas, 7 Crud yr Awel, Efailwen fydd yn 90 ganol mis Gorffennaf.

Dymuniadau gorau a phenblwydd hapus i Edryd Eynon, Plas y Bedw sydd yn 40 oed ar Awst 20fed.

Genedigaeth



Llongyfarchiadau i Roy Morris, Hwlfordd (gynt o Pantycaws) ar enedigaeth ŵyr arall. Ganwyd Ellis Riccardo Morrid-Woolcock i'w ferch Sioned a'i phartner Reece ar Fehefin 4ydd yn pwysu 9pwys 14owns. Maent yn byw yn Wolverhampton. Pob dymuniad da i'r teulu.

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...
01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy

Paentiwr ac
Addurnwr
Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 **Monraker** 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
 **Tir y Bont** 
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

RHYDYCEISIAID

Dymuniadau gorau i Mrs Marlene Lewis ar ddathlu ei phenblwydd yn 86 oed ar Orffennaf 11eg.

Diolch i'r Parchedig Guto Llewelyn am roi ei wasanaeth dros 'Zoom' bob mis ac am ei garedigrwydd bob amser.

Dymuniadau gorau i'r rhai sydd yn anhwylus yn eu cartrefi.

Marwolaeth

Blin oedd gennym glywed am farwolaeth Mrs Hazel Charles Evans. Cydymdeimlwn â'r teulu.

HENLLANFALLTEG

Priodas Ruddem



Llongyfarchiadau i Phil a Rhian Harries, Efailfach, Henllan Amgoed, ar ddathlu eu Priodas Ruddem. Priodwyd y ddau yng nghapel Henllan, 24ain o Orffennaf 1981 gan y diweddar Parch. Euros Wyn Jones. Pob hwyl, iechyd da! Wrth y teulu holl i gyd! (Pwy sy'n haeddu'r fedal?!!!)

RHYDWILYM

Ar ôl cyfnod hir a'r drysau yn gau, gobeithiwn gynnal gwasanaethau yn fuan, gan ddechrau ym mis Medi.

Medi 5ed (10.30) Y Chwaer Dwynwen Teifi
Medi 19eg (10.30) Y Parch Peter Thomas
(Gobeithio cynnal Cymun ar y Sul hwn)

Trist oedd clywed bod un o'n haelodau, sef Eirwen Hackett (Eirwen Dyffryn Isaf) wedi marw ddechrau mis Mehefin. Yr oedd Eirwen wedi byw yn Aylsbury ers amser maith, ac yr ydym yn cydymdeimlo gyda'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Elsa, wrth iddi golli ei chymar, sef Gerald Williams, Yr Ysgwrn, Trawsfynydd. hefyd gyda Iwan Lewis, Delfryn, wrth iddo golli ei frawd Eirwyn yn ddiweddar. Yr oedd Eirwyn yn frawd yng nghyfraith i Hedydd a Mona Lewis, ac yn berthynas agos i nifer o'n haelodau. Pob bendith i bawb yn eu hiraeth a'u galar.

Dymunwn wellhad buan a llwyr i Ann Llewelyn, Tŷ Uchaf ar ôl iddi gael llawdriniaeth ar ei hwyneb yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi hi ac i bawb sydd yn anhwylus ac mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd.

Dymuna Eilir ddiolch am y cyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn 80 ar ddiwedd mis Mai. Diolch i bawb.

LLANBOIDY

Sefydliad y Merched

Ar wahoddiad y llywydd, Chris Murrell, ar Fai'r 27ain daeth yr aelodau ynghyd â chyfarfod ar patio Maesgwynne. Cyn cael dished o de a bisgedi, bu'r aelodau'n trafod busnes ac atgoffwyd pawb am Sioe y Sir sydd i'w chynnal ar ddiwedd mis Gorffennaf yng Nghydsweli. Dymunwyd yn dda i Sheila Jones a fydd yn symud i fyw i Gaerfyrddin.

Ar Mehefin 17eg cyfarfu'r aelodau yn Maesgwynne ac aeth pawb a phicnic gyda hwy. Trafodwyd busnes, a chyhoeddwyd for Sioe y Sir wedi ei chanslo ond fod y gwaith llaw i'w feirniadu drwy ddanfôn lluniau i'r swyddfa. Aeth pob aelod â gwaith llaw i'r cyfarfod, yn amrywio o waithglain (beadwork) i bwyth croes (cross-stitch). Enillwyd y raffl gan June a Jan.

Ar 8fed o Orffennaf cyfarfu'r aelodau ar brynhawn hyfryd unwaith eto yn Maesgwynne. Bu un o'r aelodau, sef Valerie Dixon yn arddangos sut i wneud "Tunisian crochet," gyda rhai o'r aelodau eraill yn rhoi cynnig arni. Enillwyd y raffl gan Norah a Brenda.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Dorian Phillips ar gael ei anrhydeddu â'r MBE am ei waith gyda'r bechgyn tynnu rhaff ac hefyd gyda ieuencid yr ardal.

Cydymdeimlo

Rydym yn meddwl am deulu Pensarn ar ôl iddynt golli mab mewn damwain erchyll.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth Cyflogau
Cadw Cyfrifon Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Safle siop trin gwallt Chris, Crymch

Salon
Harddwch
a
Chyflenwol

Ffôn:
01239 831479

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

Hazel Charles Evans



Daeth y newyddion trist am farwolaeth Hazel Charles Evans ar ddechrau mis Gorffennaf. Daeth Hazel i fyw i'r Mans yn Llanboidy pan ddaeth ei gŵr y diweddar Aeron Evans yn weinidog ar Trinity a Rhydyceisiaid yn 1969 hyd 1974. Roedd yn weithgar iawn

yn Ysgol Sul y Trinity yn dysgu dosbarth y plant.

Hazel bu'n gyfrifol am ddechrau Chwirydd y Trinity yn 1969, a dwy flynedd yn ôl daeth nôl fel y gwraig wadd pan ddathlwyd 50 mlynedd y Chwaeroliaeth. Bu hefyd yn athrawes Gymraeg yn yr Andes, Patagonia a bu yn pregethu yn yr Andes ac yng nghapeli Cymru. Roedd Hazel yn wraig dalentog iawn, amlygwyd hyn yn ei gwaith llenyddol wedi iddi gyhoeddi llawer o lyfrau. Bu Hazel fyw bywyd llawn iawn ac fe welir ei heisiau mewn sawl maes.

G.L a N.H

SAN CLER

Trist oedd clywed am farwolaeth Gareth James a fagwyd yn San Cler lle'r oedd ei dad, William, yn reolwr ar Siop Carmarthen Farmers. Cydymdeimlir â'i wraig, Delyth, a'r teulu yn eu colled.

Dymunir yn dda i Wyn James, Anwyn, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ystod y misoedd diwethaf.

Cafodd Craig Farrier, Lon Hafren, ddamwain tra yn chwarae rygbi a gorfod iddo gael dwy lawdriniaeth ar ei fraich. Da yw deall ei fod ar wellhad.

Gyda thristwch y clywsom, yn yr wythnosau diwethaf, am farwolaethau sawl aelod o'r gymuned yn San Cler. Bu farw Helen Davies, Maen y Felin, a fu'n ymwneud â nyrsio yn yr ardal dros sawl blwyddyn. Cofiw'n am ei gŵr, Conway, a'r meibion a'r teulu yn eu colled.

Siomwyd yr ardal wrth glywed am farwolaeth sydyn

David Phillips, Cartrefle, yn 76 oed ar Fai 16eg. Cafodd ei fagu yng Nghartrefle, Heol Salem, lle y bu'n ffermio drwy ei oes ac fel Dai Cartrefle roedd pawb yn ei adnabod. Amaethwr oedd wrth ei alwedigaeth ac roedd bob amser yn barod ei gymwynas i helpu yn y gymuned. Am sawl blwyddyn bu'n arweinydd Clwb Ffermwyr Ifanc San Cler lle'r oedd yn fawr ei barch gan yr aelodau. Roedd yn hyfforddi'r aelodau gogyfer â phob math o gystadlaethau ac yn ymfalechio yn llwyddiant pob aelod. Roedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Mair lle'r oedd yn ddiagon a thrysorydd tan i'r eglwys gau. Erbyn hyn, roedd yn aelod ym Methlehem Newydd. Roedd yn ymddiddori mewn gwahanol chwaraeon, yn enwedig rygbi, ac yn gefnogwr brwd o dîm San Cler. Roedd wedi colli ei frawd, John, a'i chwaer, Jane, ers rhai blyneddodd a chydymdeimlir yn fawr a'i chwaer-yng-nghyfraith, Sandra, ei nithoedd Sarah a Kathy a'u teuluoedd a'r cefndryd i gyd.

Cymeriad arall o San Cler a gollwyd yn ddiweddar oedd Teddy Williams. Eto, roedd pawb yn adnabod Teddy a fagwyd yn y dref. Cofia nifer ef yn gweithio fel postman cyn rhedeg siop lysiau a ffrwythau Mile End yng nghanol y dref. Pel-droed oedd gêm Teddy ac roedd yn arwr i lawer yn ystod ei ddyddiau yn chwarae i dîm pel-droed San Cler nôl yn y 60au a 70au pan oedd y tîm yn serenennu yn y gynghrair ac mewn cystadlaethau megis y Mond Cup. Roedd Teddy yn gymeriad hynaws a oedd yn ffrind i bawb. Cydymdeimlir â'i feibion Bradley a Curtis, ei frodyr Ronald a Raymond a'r teulu oll yn eu galar.

Un arall a oedd yn flaenllaw ym myd chwaraeon yn San Cler oedd Malcolm Protheroe a fu farw ym mis Mehefin. Bu ef yn amlwg iawn ym myd rygbi fel chwaraewr, hyfforddwr ac yn un o swyddogion y Clwb yn San Cler. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu hiraeth.

Cydymdeimlwn â Tim a Wendy Davies, Heol yr Orsaf, a Ceri a'r teulu ar farwolaeth mam Tim, sef Megan Davies o Fancyfelin.

Cyfraniadau

Dorian a Delyth Lewis, Trefyw	£20
Mary a Gwynlais Phillips, Merlais	£10
Eilir Davies, Tyrhos	£10
Emyr ac Eleri Parri-Roberts	£10

Diolch yn fawr

Colin J. Harries
Cigydd o Safon 
Gwasanaeth arlwyio ar gael hefyd
London House, 
Hendygywyn-ar-Dâf 01994 240705
Galwch i mewn am y dewis gorau


GERALD BLAIN
CYMDEITHIWN CYF
The High Street, Carmarthen
15 Stryd St Iwan, HENDYGYWYN,
SA34 0AN 01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
 
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

PWLL TRAP

Cydymdeimlwn â Ian a Sonia Thomas a'r teulu, Oak Crest, ar farwolaeth chwaer Ian, sef Rozanne Kirk o Hendygwyn.

Llongyfarchiadau i Ryland a Beti-Wyn James, Cartref, ar enedigaeth wŷr, Steffan Llewelyn, mab i Lowri a Chris yn Hensol.

Dymunwn benblwydd hapus i Buddug Nicholas, Celan sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 50 oed ym mis Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i Daniel O'Callaghan, Maesybryn, ar ennill gwobrau gyda Cardiff Student Media Awards, un yn "Cynnwys Digidol" gorau a'r llall yn "Cyflwynydd Cymraeg" gorau. Pob dymuniad da iddo ar y cwrs meistr mewn newyddiaduraeth darlledu.

Bethlehem Newydd

Cynhaliwyd y Cwrdd Blynnyddol ar Fai 9fed a chafwyd oedfa hyfryd dan ofal y Parch. John Gwilym Jones.

Cafwyd oedfaon bendithiol iawn ym mis Mai yng ngofal y gweinidog a hefyd Annalyn Davies. Cafwyd oedfa gymun dan ofal y gweinidog ar Fehefin 6ed ac oedfa ar Fehefin 20fed. Hefyd cafwyd oedfa gymun ar Orffennaf 4ydd. Mae wedi bod yn braf cael dod at ein gilydd i addoli unwaith yn rhagor a diolch i'r gweinidog a swyddogion yr Eglwys am eu gwaith.

Cydymdeimlwn â Margaret Williams ar farwolaeth ei modryb, Phoebe Nicholas yn Hendygwyn.

Llongyfarchiadau i Ronnie Howells a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 95 oed ar Mai 25ain.

...hefyd i Christine a Howard Bevan ar enedigaeth wŷr, Gruffydd John, mab i'w merch, Sarah a Dan ei gŵr.

...hefyd i Gerwyn a Martha Griffiths, Blaencors ar enedigaeth gor-wŷr, Gethin Wyn, mab bach i Carys ei hwyres a'i gŵr Dafydd. .

...hefyd i Elin Fflur Jones ar ddod yn drydydd ar yr Unawd Cerdd Dant ac i Daniel O'Callaghan ar ddod yn drydydd yn yr Alaw Werin ac am ennill gwobr yn yr adran newyddiaduraeth yn Eisteddfod T yr Urdd. Braf yw clywed am eu llwyddiant a byddan nhw yn cael y cyfle i deithio gyda'r Urdd i Alabama i berfformio yno.

Dymuna Joan Evans a'r teulu, Glenview, Pwll Trap, ddiolch i bawb, yn deulu, cymdogion a ffrindiau, am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn dilyn marwolaeth Glyn.

CWMBACH

Rhaglen Ffermio S4C - Delyth Robinson

Mi ymddangosais ar raglen Ffermio rai wythnosau yn ôl i roi fy marn bersonol ar y ddêl fasnach rhwng y Deyrnas Unedig ac Awstralia. Ers hynny mae'r ddêl wedi ei wneud ond yr un yw'r farn.

Mae'r cytundeb yn creu cryn dipyn o bryder. Mae'r ddêl yn golygu bod Awstralia yn cael mewnfario nwyddau yn ddi-dariff. Mae 'na gap ar y swm am y 15 mlynedd nesaf. Ond mae'r cwota yn uwch na'r swm sydd yn cael ei fewnfario o Awstralia ar hyn o bryd. Dyma'r cytundeb masnachol cyntaf ers Brexit ac mae'n gosod cysail ar gyfer cytundebau masnachol y dyfodol.

Awstralia yw'r allforiwr cig defaid mwyaf byd a'r allforiwr cig eidion mwyaf yn ôl gwerth. Maent yn ffermio mewn 'feed lots' ac yn defnyddio hormonau, sy'n anghyfreithlon i ni. Rydym yn gweithio yn galed i gynhyrchu bwyd o safon uchel o dan reolau llym ac yn ceisio lleihau'n ôl troed carbon a'n defnydd o wrthfotigau. Nid ydym fel gwlad yn hunan gynhaliol mewn bwyd ond nid yw'n dderbyniol mewnfario bwyd o ben draw'r byd, o wlad sydd yn dioddef o sychder.

Mae'r ddêl yma gydag Awstralia yn ein hatgoffa i fod yn ddiolchgar i'n cwsmeriaid am brynu ein cynnyrch a nid eu cymryd yn ganiataol. Mae'n hanfodol ein bod yn gwella marchnata ein cynnyrch fel bod pobl yn ymwybodol o'r safonau yr ydym yn gweithio iddynt a sut rydym yn cynnal y tirlin godidog. Mae Gwlad Yr Ia wedi bod yn llwyddiannus mewn marchnata cig oen, esiampl falle ddylwn ni ei ddilyn.

Mae'r cyfnod clo wedi dangos faint o gig o dramor sydd yn cael ei fwyta mewn llefydd bwyd, oherwydd tyfodd gwerthiant cig oen a biff mewn siopau yn ystod y cyfnod clo. Mae'n hanfodol felly gwella rheolau labeli bwyd fel bod modd gwybod yn syth o ble mae'r bwyd yn dod er mwyn galluogi pobl i wneud y dewis yn haws.

DAVID HARRIES
& Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm
Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

Allen and Partners
Milfeddygon

ALLEN & PARTNERS
Veterinary Services Ltd

Hendygwyn: 01994 240 318

BLAENWAUN

Moriah

Gwasanaethodd y gweinidog y Parchedig Gareth Ioan mewn oedfa foreol ar Sul, 6ed Mehefin. Roedd cynrychiolaeth dda o'r aelodau yn bresennol a hyfryd oedd derbyn dau aelod newydd sef Eluned a Iori James. Croesawyd hwy yn fawr gan y gweinidog a'r aelodau. Dilynwyd y gwasanaeth gan gwrdd Eglwys i drafod rheolau'r fynwent a chafwyd trafodaeth a chytundeb.

Bydd y Sul Sbesial ar fersiwn Zoom eto eleni ar 11eg Gorffennaf am 2 o'r gloch. Gobeithir bydd rhai o'r aelodau yn medru ymuno â'r gweithgareddau.

Disgwylir Arwel Evans i oedfa ar Sul, 18fed Gorffennaf am 2 o'r gloch.

Nid oes oedfa ym mis Awst ond gobeithir yn fawr y bydd nifer o'r rheolau wedi eu diddymu erbyn mis Medi. Edrychwn ymlaen at oedfa dan ofal ein gweinidog ar fore Sul y 12fed. Yn y cyfamser gobeithir y byddwch yn medru mwynhau'r Hâf. Mae un o'n haelodau, Brenda Saunders, Rhydargaeau wedi dathlu penblwydd arbennig ar Gorffennaf 10fed. yn saith deg oed. Dymuna'r aelodau bob hapusrwydd a iechyd da iddi i'r dyfodol.

Blaenwaun

Dymuna Pam Evans, Sibrwd y Dail ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed. Diolch hefyd am yr anrhegion.

Priodas Aur



Llongyfarchiadau i Peter ac Evana James a fu'n dathlu eu Priodas Aur ar Fehefin 19eg.

Diolch.

Mae Evanna a Peter James, Ffawydd am ddiolch am y cyfarchion lu ar achlysur eu Priodas Aur. Cawsant ddiwrnod wrth eu bodd.

Croesawn Liz Lewis a'r teulu i'w cartref newydd yn Ffynnon Goll. Gobeithir y byddant yn hapus iawn yn y pentref.

Mae Ann a Irfon Phillips wedi ymgartrefi yn ei cartref newydd, Swyn y Wawr ar ôl gweithio'n galed i'w adeiladu. Pob dymuniad da iddynt.

Bydd tipyn o ddatlu yn Berllan gan bod Nia a Michael Llewellyn yn dathlu eu penblwyddi yn ddeugain oed. Michael ar 13eg a Nia ar 17eg. Pob dymuniad da. Anfonwn gyfarchion at Nerys Nicholas, efaill Nia hefyd. Joiwch y dathlu.

Penblwydd Hapus yn 40 oed



Penblwydd Hapus i Nia Llewellyn a Nerys Nicholas a fydd yn dathlu eu penblwyddi yn 40 oed arf Orffennaf 17eg. Mwynhwech y dathlu. Oddi wrth merched Cwmbach.

TRELECH

Penblwydd hapus i Anwen Phillips, Cilifan fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 18 oed ym mis Awst.

Llongyfarchiadau i Alun a Linda Davies, Waunolau, ar enediggaeth wyres fach arall, Nel Mia Etta, merch i Elen a Richard.

....hefyd llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Georgina a Karl Butler, Caerwenog ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Gwellhad buan i Mrs Bessie Bowen, Rhyd y Cyw sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd wedi iddi gwmpo yn ei chartref.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mrs Rosa Evans, Waunuchaf gynt, yn eu colled a hithau yn 103 oed. Hi oedd aelod hynaf Capel y Graig.

....hefyd cydymdeimlwn â Mrs Menna Thomas-Jones, Bryn Siriol a Mrs Mair Jones, Hafod ar golli cefnder, Mr Wyn Williams, Abergwili mewn damwain ffordd drychinebus.

....hefyd â theulu y diweddar Marian Evans, Caerwenog a fu farw ar ôl cyfnod o salwch yn yr ysbyty.

Dymuna teulu y diweddar Mr Frank Barnett, Clun View ddiolch i bawb a gyfranodd tuag at Capel y Graig er cof amdano. Daeth y cyfanswm i dros £1000.

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal sydd wedi derbyn eu canlyniadau TGAU, Lefel A a gradd yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Croeso i bentref Trelech i Mr Ray Davies a Mrs Gwyneth Evans sydd wedi symud i fyw yn Maes yr Awel yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

Cylch Meithrin Trelech

Teulu a Chartrefi



Y thema ar ddechrau'r tymor oedd teulu a chartrefi. Bu'r plant yn brysur yn gwneud gwahanol weithgareddau ar stori Y Tri

Mochyn Bach ac Elen Benfelen. Yna symud ymlaen i deulu ni yng Nghylch Trelech, lle roedd y plant yn siarad am eu teuluoedd. Penderfynwyd adeiladu tŷ gyda gwahanol siapiau ac ychwanegu lluniau o bob teulu i greu teulu Cylch Trelech.

Y Tywydd



Ar ôl hanner tymor, tywydd oedd y thema. Trafod y gwahanol fathau o dywydd, a pha un oedd well ganddynt. Bu'r plant yn gwisgo tedi ar gyfer mynd i'r traeth yn y tywydd braf ac yn y

glaw. Yn ail greu enfys gan ddefnyddio gwahanol liwiau a chreu snac enfys gan ddefnyddio amryw o ffrwythau yn ystod wythnos Arch Noa.

Mabolgampau



Buom yn ffodus iawn o gael bore braf er mwyn cynnal ein mabolgampau eleni. Pawb wedi cymryd rhan ymhob ras a chael tystysgrif ar y diwedd. Da iawn chi blant.

Sul y Tadau

Bu'r plant yn brysur yn gwneud carden Sul y Tadau wrth greu print o'i traed gyda phaent a chreu deinosor allan ohono. Pawb wedi mwynhau y weithgaredd yma.

Mudiad Meithrin yn 50 oed



Cafwyd wythnos llawn hwyl yn dathlu penblwydd y Mudiad yn 50 oed. Bu'r plant yn coginio cacen i Dewin a Doti ac ad-

durno carden penblwydd iddynt. Ar ddiwedd yr wythnos cafwyd parti gyda jeli a hufen ia, canu penblwydd hapus a darn mawr o gacen i bawb. Penblwydd hapus Mudiad Meithrin oddi wrth pawb yng Nghylch Meithrin Trelech.

Ffarwel

Mae'r amser wedi dod i ddweud ffarwel wrth Esmae, Noa a Brook. Joiwch mas draw yn ysgol Hafodwenog yn mis Medi.

LLANGLYDWEN

Mae nifer o bobl wedi symud i Langlydwen yn ddiweddar ac felly er mwyn cael cyfle i gyfarfod a dod i adnabod pawb, cynhaliwyd barbeciw i drigolion y pentref yn y cae chwarae yn ddiweddar. Braf oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd. Cafwyd noson hyfryd, er gwaetha'r cawodydd ar ddechrau'r noson, gyda phedwar 'chef profiadol' yn ymgymryd a'r coginio. Bu pawb yn mwynhau'r bwyd, y diod a'r cymdeithasu, a hynny yn yr heulwen a ddaeth yn fuan wedi'r glaw cynnar. Diolch i bawb a fu'n helpu.

Croeso felly i bawb sydd wedi symud i Langlydwen yn ystod y misoedd diwethaf a phob dymuniad da i iddynt yn eu cartrefi newydd.

Braf hefyd yw gweld Tafarn y Bont wedi ail agor ar ôl cyfnod hir ar gau. Pob dymuniad da i'r perchennog newydd ac hefyd i Brynmor Thomas, a fu'n berchennog y Bont am flynyddoedd lawer a diolch iddo am ei wasanaeth yn rhedeg y dafarn a chefnogi holl weithgareddau'r pentref ar hyd y blynyddoedd.

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUION

BOOMERANG
SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

HENDYGWYN AR DAF


Tabernacl



Roedd dydd Sul, Mai 30ain, yn ddiwrnod arbennig yn y capel. Dyma oedd diwrnod priodas Catrin Thomas a Shon Rees a cafwyd diwrnod bythgofiadwy gyda'r haul yn gwenu yn braf. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt ar gyfer y dyfodol

oddi wrth pawb yn y Tabernacl, Hendy-gwyn.

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli un o'n haelodau anwylaf yn ystod y mis gyda marwolaeth Mrs Lett Morse. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth a daeth tua 25 o bobl i sefyll tu fas y capel cyn y gwasanaeth i dalu teyrnged i Lett. Cofiw am wraig groesawgar a charedig. Gwraig a oedd a chariad mawr at ei theulu ac un a wnaeth y ffydd Gristnogol yn ganolbwynt ei bywyd. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda'r teulu yn eu galar.



Ar Fai 20fed fe fuom yn dathlu bywyd Waldo Williams a hynny 50 mlynedd i'r diwrnod ers marw'r bardd a'r heddychwyr. I ddathlu ei fywyd gofynnwyd i bobl

rhoi ei hoff linell o'i farddoniaeth ar ddeilen gan mai 'Dail Pren' oedd teitl ei unig gyfrol o farddoniaeth. Er gwaethaf y tywydd ofnadwy ar y diwrnod, fe wnaeth nifer o'n haelodau a chyfeillion ymuno drwy roi llinell o farddoniaeth ar ddeilen. Hefyd cawsom oedfa i ddathlu bywyd a gwaith Waldo.

Braf oedd cael croesawu'r plant nol i'r Tabernacl, Hendy-gwyn ar ddiwedd mis Mehefin a hynny am y tro cyntaf ers y cyfnod clo. Cynhaliwyd oedfa deulu a daeth Jack Newbold o MIC (Menter Gristnogol Sir Gar) i annerch y plant. Cafwyd cyflwyniad arbennig ganddo yn seiliedig ar stori Dafydd a Goliath. Mae'r plant wedi bod yn ffyddlon i'r Ysgol Sul trwy gyfnod y cyfnod clo a braf oedd eu gweld unwaith eto a cael sioc eu bod wedi tyfu gymaint yn ystod y flwyddyn a chwarter diwethaf yma!



Jack Newbold yn cynnal oedfa deuluol

Mae yna nifer o bethau wedi dechrau dychwelyd i'r arfer erbyn hyn ac rydym wedi dechrau canu unwaith eto ac mae'r organ i'w chlywed bob Sul. Ac mae pawb yn hapus eu bod yn cael canu yn y cwrdd bellach.

Ar nodyn trist iawn fe wnaethom golli un o'n haelodau yn ystod y mis, sef Mrs Rozanne Kirk, yn dilyn salwch blin. Cofiw am ei chyfraniad arbennig i'r heddlu ac am

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan atgyweirio ceir 

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendy-gwyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH 

Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymymch, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymymch, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT
Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

ei chariad mawr at ei theulu. Rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda'i gwr David, a'r plant Holly, Tom a Mari.

Hefyd mae nifer o'n haelodau yn dioddef salwch ar hyn o bryd ac rydym yn meddwl amdanynt i gyd.

Bydd yr oedfaon yn parhau fel arfer am 10.30 yn yr wythnosau nesaf yma, gan gynnwys mis Awst a chroeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni.

Rydym yn parhau mewn cyfnod sy'n cael ei ddisgrifio fel cyfnod 'hybrid', lle mae yna oedfaon yn y capel bob Sul am 10.30, yn cynnwys mis Awst. Hefyd rhai pethau yn cael eu trefnu ar 'Zoom', trwy e-bost neu ar CD. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni, yn y capel neu yn rhithiol. Cysylltwch â Guto ar 01269 851655 am fwy o fanylion o beth yn hollol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Canolfan Genedlaethol Hywel Dda

Er fod y Ganolfan wedi bod ar gau yn ystod yr amserau clo, dyw'r Pwyllgor ddim wedi bod yn segur. Mae rhai ohonynt, gan gynnwys Pat, Valerie a'r Cdeirydd, Sue Allen, wedi bod yn brysur iawn yn yr ardd yn chwynu, torri'r porfa ac yn ychwanegu planhigion i rai o'r gerddi.

Oherwydd fod y rhosynnau gwynion oedd yn ffurfio hanner lleuad yng Ngardd y Menywod wedi diflannu, mae Sefydliad y Merched a Merched y Wawr wedi rhannu'r gost o brynu rhai newydd. Bellach, mae rhain yn eu lle ac yn werth eu gweld. Mae hecsagon newydd i'w weld wrth droed y Cloc Haul ac mae llawer o waith wedi ei wneud o gwmpas y ffynnon yng Ngardd yr Onnen, megis gardd fach o berlysiau. Mae'r Gerddi wedi bod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr amser clo a bellach maent ar agor i ymwelwyr i gael teithiau tywsiedig. Hefyd, mae George Bancroft wedi bod yn tynnu enwau'r enillwyr lwcus bob mis -

Mis Mai £50 - Mair Mathias, £40 - Rose Rickards, £30 - Eirianwen Stanford, £20 - Adeiladwyr Davies (Davies Biulders).

Mis Mehefin

£50 - Ann Taylor, £40 - Adeiladwyr Davies, £30 - Nansi Evans, £20 - Wynne Phillips.

Gwobr Arbennig

£50 - Tudur Lewis, £20 - Cyril Jones, Caefyrddin.

Mis Gorffennaf

£50 - George Bancroft, £40 - Adeiladwyr Davies, £30 - Eirian Davies, £20 - Morfydd Thomas.



Rhosynnau gwynion



Y Cloc Haul

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mam a Dad sef Ithel a Jean Parri-Roberts, Preseli, Hendygywn a fydd yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Awst 26ain. Oddi wrth Emyr ac Eleri.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Robert James
Efailwen, Clunderwen
01994 419735
Ar agor am frecwast, cinio, te a swper.
Ystafell ychwanegol i eistedd 70
ar gyfer bob achlysur.

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda

Mae Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda wedi cael llawer o hwyl a sbri yn dathlu penblwydd Mudiad Meithrin yn 50. Penblwydd hapus Mudiad Meithrin!

Bydd dathlu mawr eto yn Hendygywyn ym mis Medi gyda Chylch Meithrin Hywel Dda yn dathlu penblwydd yn 50 oed! Rydym yn edrych ymlaen at fore o ddathlu gyda Siani Sionc ar fore dydd Sadwrn, 11eg o Fedi.



Annwyl Ffrindiau,

Bydd Cylch Meithrin Hywel Dda, ym mis Medi eleni, yn dathlu ei benblwydd yn 50 oed! Dros yr hanner canrif diwethaf, mae'r grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi addysg a datblygiad nifer fawr o blant cyn-ysgol o Hendy-gwyn ar Daf a'r ardaloedd cyfagos, ac rydym yn awyddus i gydnabod a dathlu'r garreg filltir wych hon.

Gan ein bod yn elusen, rydym yn gobeithio codi arian tuag at ddigwyddiad dathlu cymunedol ym mis Medi drwy greu rhaglen fer i'w gwerthu i ffrindiau a theulu'r Cylch ac yn ehangach. Bydd y rhaglen yn cynnwys gwybodaeth am y Cylch a'i hanes, y digwyddiad a hysbysebion gan fusnesau lleol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi'r Cylch a manteisio ar y cyfle hwn i hysbysebu eich busnes, cadarnhewch drwy ebostio cylchhyweldda@icloud.com gan gynnwys y wybodaeth yr hoffech ei chynnwys, ynghyd ag unrhyw logos erbyn dydd Gwener, 30ain Gorffennaf.

Byddwn wedyn yn cymeradwyo eich hysbyseb ac yn cadarnhau sut y gallwch dalu. Y gost yw £25 am hysbyseb hanner tudalen a £50 am hysbyseb tudalen lawn.

Gobeithiwn glywed wrthyh yn fuan.

Yn gywir,

Kate Rothwell

(Ysgrifenyddes Pwyllgor Cylch Meithrin Hywel Dda)

LLANGYNIN

Cydymdeimlad

Unwaith eto mae nifer o deuluoedd yn yr ardal wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Ar Fai 20fed bu farw Susan (Sue) Ceasar, Green View, yn 61 oed. Cofiw'n am ei gŵr Dave, a'r meibion Dan ac Ed a'u teuluoedd yn eu colled a'u galar.

Bu farw Margaret (Mags) Harris, Gelli Aur, ar Fehefin 6ed. Gynt o Ffynnone, Meidrim, roedd Margaret yn 74 oed, yn wraig i Ken ac yn fam i Nicky, Michael, Michelle, Darren a Naomi. Cydymdeimlwn yn ddifffuant gyda'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn yn ddiwyll hefyd gyda Richard a Jane Thomas a'r teulu, Trem y Cwm, ar farwolaeth chwaer Richard sef Rozanne Kirk o Hendy-gwyn ar Daf.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Rosalie Williams, Clawddcam, ar ei phenblwydd arbennig yn 60 oed ar Orffennaf 5ed. Pen blwydd hapus iawn Rosalie! Dymuniadau gorau hefyd i'w gŵr, Adrian, ar ei ymddeoliad. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddo.

Croeso

Croeso i Llŷr Lloyd ac Elin Griffiths sydd wedi symud i fyw i Penlan House, ac i Rob a Jess sydd wedi ymgartrefu ym Mlaenpant. Pob lwc iddynt yn eu cartrefi newydd.

Penblwydd

Penblwydd hapus i Josh Lewis, Llanybri a fydd yn 18 oed dydd Sul, 8fed o Awst.

Dymuniadau gorau wrth Dadi, Mami, Jac, Mamgu, Dadcu, Geraint, Jenny, Oliver a Phoebe. xxxx

CLUNDERWEN

Dymunwn wellhad buan i Les Llewellyn, Grove Cottage, wedi iddo cael llawdriniaeth brys, yn Ysbyty Llwynhelyg.

....hefyd dymunwn wellhad i Gilbert Rees a'i frawd Alf Rees, y ddau yn anhwylys.

Penblwydd hapus i B.G.B. sef Bernard George Bowen, Tŷ Capel Pisga, wrth iddo ddathlu ei penblwydd yn 80 oed ar y 5ed o Orffennaf, Pob hwyl a iechyd da iti Berni wrth y teulu oll, ffrindiau a chymdogion.

Cydymdeimlwn â Alan Jones o Arberth wedi iddo golli ei wraig Bronwen, mam annwyl Catherine ac Alison, mam-yng-nghyfraith

Floyd a Dan a mams cariadus Leah ac Olivia. Bu Bronwen yn fydwraig yn Ysbyty Glangwili am flynyddoedd. Merch y diweddar Emlyn ac Enid Thomas, Llysmyrddin a chwaer ffyddlon. Bu'r gwasanaeth yng Nghapel Cal-faria ac yna yn Amlogfa Parc Gwyn. Gwasanaethwyd gan y Parch. Euros Jones Evans.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Rhian Thomas, Heol y Gaer, Clunderwen. Wedi brwydr hir bu farw Rhian yn 54 oed. Partner hoffus John, mam annwyl Lowri, Hannah a James, mamgu gariadus a chwaer ffyddlon.

Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Brynmor ac Angela Thomas, Brynderwen, ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt sef 60 mlynedd, priodwyd y ddau ar 26ain o Fehefin yn Eglwys Llandysilio. Dymuniadau gorau i chi'ch dau oddiwrth y teulu i gyd, perthnasau a ffrindiau.

Cynhyrchu offer i Sw Whipsnade yn Llundain



'Dyma lun 'Deer Crush' a gynhyrchwyd yng Nghlunderwen, gan Dan Thomas Engineering, Brynhyfryd. Roedd Dan wedi cael ei gomisiynu gan Sw yn Llundain, gan fod angen crush pwrpasol arnynt er mwyn trin ceirw. Gwerthwyd a chludwyd yr offer i Sw Whipsnade yn Llundain gan gwmni 'Ladds,' Clunderwen.

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Ar ôl blwyddyn a hanner o fod ar gau oherwydd y pandemig, ein gobaith yw agor unwaith eto ym mis Medi. Os bydd hyn yn bosib, yr oedfaon fydd:

Medi 12fed: Parchg Huw George - 2.00

Hydref 3ydd: Mrs Analyn Davies - 2.00

10fed: Parchg Huw George - 2.00

Cydymdeimlwn â Dawn Laybourne Davies (gynt o East Gate, Llanboidy) ar farwolaeth sydyn ei merch Yasmine, ddiwedd Mai. Hefyd â Jean, Vicky a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Priodas Ddiemwnt.

Llongyfarchiadau i Allen a Heulwen Lewis, Cefnypant House a fu'n dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Orffennaf 1af.

.....hefyd Roy a Rhoswen Llewellyn a fydd yn dathlu ar Awst 12fed.



Diolch

Dymuna Sioned Snelson ddiolch o galon i bawb am y cyfarfion, cardiau, a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig ddechrau'r mis.

Diolch i Becws Bets am y gacen hyfryd.

Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Allen a Heulwen Lewis, Cefnypant House ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Priodwyd y ddau ar Orffennaf 1af, 1961.

Pob dymuniad da wrth y teulu i gyd.

Penblwydd hapus i Delyth Bebb, Yr Encil Gwyn ar gyraedd ei phenblwydd yn 65 oed ar 2il Awst. Cariad mawr wrth Graham a'r teulu i gyd xxx

Taith Noddedig Arfordir Cymru a Chlawdd Offa

Mae Huw Evans, Llandudoch (Penybont, Cwmfelin gynt) wedi cyflawni ei uchelgais, sef cerdded arfordir Cymru a Chlawdd Offa.

Dechreuodd y daith ar Awst 26ain, 2020 ar ei 'Route 66' gan ddechrau yn Poppit lle daeth nifer o bobl i ddymuno'n dda iddo wrth fynd tua'r Gogledd. Bu'n cerdded Penrhyn Llŷn ac o amgylch Sir Fôn cyn mynd ymlaen nes cyrraedd Prestatyn.

Oherwydd Covid-19 gorfod iddo ohirio cerdded Clawdd Offa am fis, ond bellach mae wedi cerdded o Brestatyn i Gasgwent ac ar hyd arfordir De Cymru. Diwedd y daith oedd Sir Benfro – o Drefdraeth yn ôl i Poppit lle dechreuodd.

Cafodd groeso nôl gan nifer o bobl lleol (a mwy) gan gynnwys cynrychiolwyr y ddwy elusen sef Y Bad Achub Lleol ac Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'r apêl yn dod i ben ac mae'n diolch i bawb sydd wedi cyfrannu eisioes.

Mae'n gobeithio ysgrifennu llyfr am ei brofiadau am y daith o 1,067 milltir. Tipyn o fenter!



LLANDDEWI EFELFFRE

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus i Eira Parry, Cartref Preswyl Waungron (gynt o Plasnewydd Llanddewi) a fydd yn 90 oed ar 16eg o fis Awst.

LLANDYSILIO

Penblwydd

Penblwydd hapus iawn i Bernard Bowen, Tŷ Capel Pisga, Llandysilio ar ddathlu penblwydd arbennig yn 80 oed ar 5ed o Orffennaf.

....hefyd Penblwydd hapus yn 1 oed i Ester Higginson, sef plentyn Meleri a Caio Higginson, wyres Jiwli a Phil Higginson a gor-wyres Skeel Harries, Pencnwc.

Cydymdeimlo

Cyddymdeimlwn â Karen a Melanie Thomas a'r teulu ar fawrolaeth ei mam Carol Thomas.

..hefyd cydymdeimlad dwys â Charlotte a'r plant (merch Huw a Sandra Rhydymoch) a gollodd ei gŵr Chris John mewn damwain erchyll.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Jack Fussel, sydd wedi cymwysu fel Ffariwr ar ôl pedair mlynedd a hanner o hyfforddiant.

....hefyd i Glwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen ar ddod yn 2il yn Rali Sir Benfro. Da iawn iddynt am ei holl waith caled.

Cylch Ti a Fi Llandysilio

Braf iawn oedd cael agor Cylch Ti a Fi Llandysilio eto ar 19eg o Fai ar ôl bod ar gau am dros flwyddyn oherwydd Covid. Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882639867. Bydd yn agor ym mis Medi ar ôl gwyliau'r haf.

Cylch Ti a Fi Llandysilio i blant 0-4 oed a rhieni/gwar-chodwyr.

Bore Mercher 10.00-12.00yb

£3.00 y sesiwn

yn Neuadd Llandysilio

Cylch Meithrin Llandysilio

Mae Mudiad Meithrin yn dathlu penblwydd yn 50 eleni. Fel rhan o'r dathlu rydym wedi bod yn gwneud gweithgareddau ar y thema 'Dathlu'. Fe ddaeth Cylch Meithrin Llandysilio yn ail mewn cystadleuaeth gan Mudiad Meithrin ar y thema yma. Enillwyd amryw o nwyddau Cymraeg.

Ar Gorffennaf yr 8fed fe aethom am dro i draeth Poppit ger Llandudoch, Aberteifi. Wel na beth oedd mwynhau, roedd y tywydd yn braf a chwmni da. Ni fedrwn fod wedi gofyn am well ac roedd y plant mor dda.

Bore Llun, 12fed o Gorffennaf, Bore MABOLGAMPAU a PARTI i ddathlu.

Cylch Meithrin Llandysilio i Blant 2-4 oed yn Neuadd Llandysilio o 9.00-12.00yp.

Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Roblin ar 078826396867



Ar y traeth yn Poppit

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER
FFONIWCH
SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

NEWYDDION BLAENCONIN

NEWYDDION DA

Hyfryd yw cael cyhoeddi fod GILBERT REES wedi dod adref o'r Ysbyty ac yn cryfhau o ddydd i ddydd. Treuliodd Gilbert wythnosau lawer yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ond bellach, mae adref yng Nghlunderwen.

MEWN CYDYMDEIMLAD

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu farw BETH DAVIES, Clunderwen, 'BETH MAELFA'. Bydd nifer yn cofio amdani yn cadw Siop y Pentref gyda'i gŵr, Alex, yn gyfrifol am declynnau trydanol y pentref.

Ar ddiwrnod yr angladd, hyfryd oedd gweld nifer o ffyddloniaid Blaenconin wedi ymgynnull y tu allan i'r Amlogfa i dalu'r gymwynas olaf iddi.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Glyn a'r teulu.

MOLIANT y MAES PARCIO

Er gwaethaf yr amgylchiadau, mae ffyddloniaid yr Eglwys wedi llwyddo i ddod ynghyd i addoli a chynnal y Sacrament o Swper yr Arglwydd a hynny yn y maes parcio. Diolch i bawb am y gefnogaeth.

Mae'r canllawiau yn sicr o newid yn ystod yr wythnosau nesaf ond mae'n bwysig ein bod yn dal ati i gadw'n hunain a'n gilydd yn ddiogel.

Rhaid pwysu a mesur effaith y llacio ar y feirws cyn dod i benderfyniad. Ar hyn o bryd, mae dechrau mis Hydref yn edrych yn addawol.

'PAN DDAW'R NOS YN DDYDD ...'

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn medru dod ynghyd i addoli a chanu mawl. Wedi blwyddyn a mwy o dawelwch, beth am gynnal OEDFA o FAWL i godi llais a seinio cân? Oni fyddai'n braf gweld Eglwys i'r fro yn dod ynghyd gan wahodd ardaloedd a Siroedd eraill i wneud yr un peth gan ddefnyddio'r

UN EMYNAU ar yr UN DIWRNOD

ac ar yr UN AMSER ...

y GENEDL GYFAN yn CANU MAWL!

Ac, ar yr un thema, beth am inni drefnu noson o GABARRET CRISTNOGOL i greu'r cyfle i bobol yr Arglwydd gymdeithasu unwaith eto.

Nid nawr ... ac nid yn ystod yr wythnosau nesaf ... ond ... cyn bo hir!

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Elfelfre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

BEIRDD BLAENCONIN

Er gwaetha'r cyfyngiadau, mae Beirdd Blaenconin wedi bod yn brysur.

'Gobaith'

Ti yw'r gobaith ym mhob gofid,
Ti yw'r wawr sy'n dod a'r dydd ;
Ti yw'r golau pan ddaw'r hinos,
Ti, yn wir, yw fflam ein ffydd :
Geiriau Duw – gobaith gwiw,
Ffordd y nef yw'r ffordd i fyw.

Ti yw'r Bugail ar y brynau,
Ceisio'r coll ymysg y brwyn ;
Dod o hyd i'r un colledig,
Casglu a choleddu'r ŵyn :
Geiriau Duw – gobaith gwiw,
Ffordd y nef yw'r ffordd i fyw.

Ti yw'n maeth a bara'r bywyd,
Ti yw'r Ffordd i'w fendith Ef ;
Ti yw'r Atgyfodiad perffaith,
Ti yw drws trigfannau'r nef :
Geiriau Duw – gobaith gwiw,
Ffordd y nef yw'r ffordd i fyw.

'Amser'

(Those were the days)

Amser sydd yn mynd a dod yn gyson,
Amser sydd yn hedfan fel y gwynt,
Ac wrth fynd yn hŷn mae pawb yn gwybod
Fod oriau'r dydd yn mynd yng nghynt a chynt.

Cytgan

**O ! prynwch amser Duw –
Dydd iachawdwriaeth yw,
Rhowch iddo'r clod am garu rhai fel ni ;
Dewch ato'n fore iawn,
Mae'n haeddu moliant llawn,
Rhowch iddo'r clod, y mawl, y parch a'r bri.**

Dysg i ni oll gyfrif nawr ein dyddiau,
Dysg i ni ddoethineb mawr y nef,
Dysg i ni dy ddilyn yn wastadol
Wrth gerdded llwybrau'r wlad a llwybrau'r dref.

Cytgan

Cymorth ni i werthfawrogi'r amser,
Gweld pob cyfle ddaw i rannu'r ffydd,
Prynu amser heddiw i'r dyfodol,
Ymroi i waith y nef o ddydd i ddydd.

Cytgan

Diwrnod i glodfori enw'r Arglwydd,
Diwrnod i glodfori enw Duw :
Diwrnod i genhadu dros yr Iesu,
Rhoi diwrnod dros y deyrnas – addas yw.

Cytgan**NEWYDDION o'r FFYNNON****CAED BABAN BACH**

Newyddion braf a ddaeth i'n bro ... a ninnau'n llongy-farch Gemma a Daniel ar enedigaeth eu merch, Margo. Cyfarchwn William a Delyth Hughes a hwythau'n ymfalchïo yn eu hwyres gyntaf a Nicholas, sydd yn ewythr balch iawn.

CYDYMDEIMLAD

Mae Elsa Davies yn un o ffyddloniaid y Ffynnon ond wedi bod yn treulio amser yn yr Ysgwrn yn gwmni i Gerald Williams.
Bu farw Gerald ym mis Mehefin ac yr ydym yn estyn ein cydymdeimlad i Elsa gan ddiolch iddi am ei charedigrwydd a'i chyfeillgarwch i Gerald.



OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelldre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G & S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clynderwen. SA66 7TX
Ffôn: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
881630 www.trefigin.cymru 881282

Llythyr a ysgrifennwyd gan Mike Williams yn tynnu sylw at broblem tai fforddiadwy yn ein cymunedau

Mae'n dda gweld fod pobl yn deffro i'r effaith ar gymunedau lleol sy'n bodoli bellach ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Erbyn hyn, does dim amser i wleidyddion laesu dwylo. Mae angen gweithredu ar frys er mwyn atal a gostwng niferoedd yr ail dai yn ein cymuned. Dyw hwn ddim yn fater yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn unig, er bod y difrod i gymunedau Cymraeg yn drychinebus. Ond y tu allan i'r ardaloedd hynny, mae diwylliant a ffordd unigryw o fyw yn cael ei ddifrodi. Mae ein bywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn cael ei erydu gan fewnlifiad o unigolion sy'n gwybod dim am ein hanes, sy'n symud yma gan ddweud eu bod yn caru'r ardal, ac o fewn ychydig o flynyddoedd yn ymgychu i newid ein gwerthoedd sylfaenol.

Enghraifft o hyn o bosib ydy'r awgrym diweddar y dylid gwahardd cwn yn Ninbych y Pysgod – syniad gan berson sy' ddim hyd yn oed yn byw yn y sir a dyw hi ddim yn ymddangos fod gan y person unrhyw wreiddiau yma. Rydym yn ddigon diniwed i ganiatau iddyn nhw hudo eu hunain i sefyllfaoedd o rym heb gael eu hethol yn gyhoeddus, lle gallant wthio eu gwerthoedd estron yn aml ar gymunedau lleol.

Dros gymaint o flynyddoedd, rydym wedi gweld ein cymunedau yn dirywio, gan arwain at ddiflaniad teuluoedd ifanc o ardaloedd penodol yn Ninbych y Pysgod. Pa obaith sydd gan ein bobl ifanc pan welwn dai teras tair ystafell wely ar werth am £400,000 i £600,000. Mae prinder tai fforddiadwy yn broblem enfawr yn yr ardal. Pam y dylai pobl ifanc orfod symud o fro eu mebyd? Pan gaiff Brynhir ei ddatblygu, bydd yn ymde-

bygu i'r hyn a ddigwyddodd yng Ngogledd America pan ymsefydlodd pobol gwyn yno. Cragen fydd calon ein tref gyda phobl ifanc lleol wedi eu hel i'r cyrion.

Rwy'n croesawu adroddiad Dr Simon Brooks, ond dyw e ddim yn mynd yn ddigon pell, a dyw e ddim yn mynd i wyrdroi'r sefyllfa bresennol. Gofynnais i'r Awdurdod Lleol i ymchwilio i'r posibilrwydd o brynu gorfodol ar ail dai - cartrefi a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer prynwyr am y tro cyntaf. Rwy'n gobeithio y caiff y gyfraith bresennol ei newid er mwyn caniatáu hyn.

Mae nifer o dai bychan o fewn yr ardal gadwraeth, a oedd yn gartref i deuluoedd lleol tan yn ddiweddar. Dylid eu prynu yn dilyn trefn werthuso gan swyddogion o'r adran brisio. Heb weithredu radical, mae'n cymuned yn mynd i newid, a bydd hi'n ddieithr i ni.

Llwyddais i gyflwyno premiwm ail dai yn Sir Benfro ar gyfradd o 50%. Mae'r Awdurdod bellach yn dechrau ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn ystyried a ddylid codi 50% yn rhagor o bremiwm. Yn ystod yr ymgynghoriad diwethaf, perchnogion ail gartrefi oedd y mwyafrif llethol a ymatebodd. Y tro hyn, mae'n rhaid i drigolion lleol ymateb gan amlinellu'r sefyllfa bresennol, gan ei bod yn effeithio ar deuluoedd lleol.

Rwy'n croesawu'r ymgyrch "Nid Yw Cymru Ar Werth". Ond mae Dinbych y Pysgod eisoes wedi ei gwerthu ac mae angen ei hawlio yn ôl.

Yn Neddf Uno 1536 mae gair sy'n weddol anghyfarwydd i ni bellach – diwreiddiad / dadwreiddiad. Lladd yr iaith Gymraeg oedd y nod. Efallai y dylid ei weithredu yn achos ail gartrefi?

Cynghorydd Michael Williams (Plaid Cymru)

Ffon: 01834 844598 • Symudol: 07974 281010

Ebost: wwilliamsm@aol.com • Cyngor Sir Penfro

SPAR 

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

 **CLOTH HALL LLANBOIDY**

Ffôn: 01994 448364 / 448221

dp **MASNACHWYR ADEILADU**

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuildingsupplies.co.uk

 **Adeiladwyr DORIAN PHILLIPS**

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 • Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law

Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR 
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu CRYMYCH 

Setiau ar werth 

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



Aeres Williams
Hyfforddwr Gyrro

Glandy Cross, Clunderwen

Ffôn: 01994 419711
Sumudol: 07969 501551
aeresannadi@hotmail.co.uk



YSGOL GRIFFITH JONES

Cwis Dim Clem



Llongyfarchiadau mawr i dîm 'Merched Beca' am eu perfformiad yn rownd genedlaethol 'Cwis Dim Clem' Menter Sir Gâr. Perfformiodd y tim yn wych sef: Tomos Jones, Erin Evans, Jac Morris a Heidi Chapman gan golli allan drwy drwch blewyn ar y prif wobrau. Cymerodd y tîm ran mewn seremoni wobrwyo rithiol gyda gweddill yr ysgolion dros Gymru dan arweiniad cyn-ddisgybl i'r ysgol sef Owain Williams o raglen 'Stwnsh'.



Aeth y ddau ddosbarth Blwyddyn 6 sef Pwyll a Myrdin ar daith i Wersyll Pentwyn am y diwrnod. Hyfryd oedd gweld y plant yn mwynhau'r profiad, yn enwedig gan iddynt golli allan ar wythnos yno yn nhymor yr

Hydref oherwydd cyfyngiadau 'Covid'. Yn ystod y dydd cawsant gyfle i ddringo, abseilio, mynd ar y wifren zip ac yna'r gweithgareddau môr drwy'r prynhawn. Diolch i staff y Gwersyll am sicrhau diwrnod mor hwylus i'r plant.

Mabolgampau

Er gwaetha'r holl gyfyngiadau Cofid fe lwyddom i drefnu diwrnod Mabolgampau ar gyfer pob swigen o fewn yr ysgol. Nid oedd yn bosib i ni groesawu ein rhieni eleni ond braf oedd gweld y plant yn mwynhau'r cystadlu ac yn cefnogi ei gilydd mor frwdfrydig.

Masnach Deg



Bu disgyblion ar draws yr ysgol yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau i gydnabod diwrnod Masnach Deg ar Fai y 10fed. Trefnodd y Pwyllgor Masnach Deg gystadleuaeth goginio 'Bake Off' i'r plant i gyflawni adre. Y dasg oedd coginio cacen gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg. Bu bwrlwm o gystadlu a dewiswyd 3 enillydd o bob dosbarth gan y Pwyllgor. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr.

Ysgol ECO

Bu disgyblion Blwyddyn 6 dosbarth Pwyll yn cystadlu mewn cystadleuaeth i ohebwy'r ifanc a drefnwyd gan 'Cadwch Gymru'n Daclus'. Y dasg oedd ymchwilio i broblemau llygredd plastig ar ein traethau ac yn ein moroedd ac yna cyflwyno'r gwaith ar ffurf erthygl papur newydd. Derbyniodd y disgyblion canlynol dystysgrifau a chlod uchel am eu gwaith: Amber Arnell, Ella Jenkins, Heidi Chapman, Jac Morris ac Isabelle Phillips.

Gweithdy Celf



Bu dosbarthiadau Pwyll a Myrddin yn cymeryd rhan mewn gweithdy celf gyda Emma Baker o Oriol Myrddin. Astudiwyd gwaith yr arlunydd Cymreig o'r Rhondda, Charles Burton. Cafodd y plant gyfle i wneud gweithgareddau argraffu gan ddefnyddio ei waith fel sbardun.

Cymorth Cristnogol

Bu'r dosbarthiadau yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau i gydnabod wythnos Cymorth Cristnogol rhwng Mai y 10fed a'r 14eg. Bu dosbarth Blwyddyn 1 Gwenllian yn dysgu am Florence o wlad Kenya oedd yn gorfod cerdded am chwech awr y dydd er mwyn dod o hyd i gyflenwad o ddŵr ar gyfer ei theulu. Bu'r dosbarth yn dynwared ei siwrnai anodd drwy gerdded o gwmpas iard yr ysgol chwech o weithiau gan gario bwcedi o ddŵr.

Pwyllgor yr Ardd

Bu Pwyllgor yr Ardd yn brysur iawn y tymor yma yn gweddnewid gardd yr ysgol. Bu dosbarthiadau Pwyll a Myrddin yn cyflwyno syniadau ar gyfer gwella'r ardd ac aeth y Pwyllgor ati i gytuno ar y syniadau gorau. Bellach mae'r ardd wedi ei gweddnewid ac fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch i deulu'r Mousley's am eu cyfraniad o bridd ar gyfer y gwelyau plannu newydd.

Ysgolion Iach

Yn ystod y tymor bu'r Pwyllgor Ysgolion Iach yn hyrwyddo bwyta'n iach drwy annog disgyblion i ddod a bocsys bwyd iach amser cinio. Cyflwynodd y Pwyllgor wasanaeth rhithiol i'r dosbarthiadau yn gyntaf, yna buont yn monitro bocsys bwyd y disgyblion yn ystod amser cinio. Cyflwynwyd dystysgrifau i'r plant a wnaeth ymdrech arbennig i gynnwys ffrwyth a dŵr fel rhan o'u bocs bwyd.

Ymwelwyr

Braf oedd medru croesawu nyrs yr ysgol nôl atom eleni i roi cyflwyniad i blant Blynyddoedd 5 a 6 ar dyfu i fyny.

Pontio

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 Pwyll a Myrddin gyfle i ymweld â Dyffryn Taf a Bro Myrddin ar gyfer diwrnodau pontio. Mwynhaodd y plant y cyfleoedd pwysig yma i gyfarfod â'u hathrawon newydd ac i gyfarwyddo â'u safleoedd newydd cyn mis Medi.

Ffarwelio

Pob dymuniad da i'r 30 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni eleni. Mae wedi bod yn flwyddyn heriol un-waith eto gan iddynt golli allan ar lawer o'r gweithgareddau sy'n rhan o brofiadau arferol Blwyddyn 6. Diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad dros y blynyddoedd ac am wynebu heriau eleni gyda dewrder a gwydnwch.

Pob dymuniad da i'r staff sydd yn ein gadael hefyd. Bydd Miss Elinor Evans yn ein gadael ar ddiwedd y tymor er mwyn dechrau ar swydd newydd gyda chwmni adnoddau addysgiadol 'Twinkl'. Diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith caled fel rhan o'n tim ni dros y blynyddoedd. Bydd Mr Rhys Thomas hefyd yn ein gadael am gyfnod gan ddechrau ar swydd fel Pennaeth dros dro yn Ysgolion Meidrim, Glan y Fferi a'r Fro. Pob hwyl i'r ddau ohonynt.

YSGOL HAFODWENOG

Wythnos Cymorth Cristnogol

Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol, penderfynodd y Cyn-gor Ysgol godi arian at yr elusen drwy gymryd rhan mewn sialens cerdded 30,000 cam ar y cyd. Diolch i'r teuluoedd am gyfrannu tuag at yr elusen. Codwyd £104.52

Casglu Sbwriel Cymunedol

Bu aelodau'r gymuned yn casglu sbwriel o amgylch y pentref. Braf oedd gweld rhai disgyblion a staff Hafodwenog yn helpu. Diolch i bawb.

Enwau Dosbarthiadau

Buodd y disgyblion yn pleidleisio ar enwau ar gyfer dosbarth 1 a dosbarth 2. Ar y rhestr roedd enwau caeau fferm Hafodwenog, lle adeiladwyd yr ysgol a'i hagar yn 1972. Felly, yr enwau newydd ydy:

Dosbarth 1 - Rhos Fach

Dosbarth 2 - Cae Glas.

Enillodd Ysgol Hafodwenog £300 yng nghystadleuaeth Menter y Dreftadaeth Gymreig mewn seremoni ar TEAMS dydd Gwener, 2ail o Orffennaf, 2021.

Teitl ein prosiect oedd 'Gwreiddiau' am hanes ardal Trelech a'r Betws. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgol gystadlu yn y gystadleuaeth ers blynyddoedd maith.



Ysgolion Greadigol

Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd, fe wnaethom gais llwyddiannus gydag 'Ysgolion Creadigol' i dderbyn grant i weithio gydag ymarferwyr creadigol. Felly, yn ystod yr hanner tymor hwn, mae Dosbarth Cae Glas wedi bod yn ffodus iawn i weithio gyda Marc Griffiths (BBC Radio Cymru) a Llinos Mair (Wenfro) ar brosiect am hanes Trelech. Bu'r rhieni/mamgu/tadcu a Llywodraethwyr ar sesiwn rithiol i ddathlu a rhannu gwaith y disgyblion.

Siarter Iaith



Newyddion da eto. Bu Ysgol Hafodwenog yn llwyddiannus i dderbyn Gwobr Arian Siarter Iaith. Diolch i'r staff a'r disgyblion am eu holl waith caled.

Mabolgampau

Cafwyd Mabolgampau'r ysgol ar ddydd Mercher, 30ain o Fehefin. Llongyfarchiadau i Tywi am ennill a llongyfarchiadau hefyd i bob disgybl am gymryd rhan. Enillodd Osian Thomas darian marciau uchaf Gwaith Maes, Elona Phillips, tarian Neidiwr Gorau ac enillodd Ellis Harries, darian Ras Hir a Marciau Uchaf y Mabolgampau. Cafwyd prynhawn llawn sbort a sbri yn yr haul.

Pob lwc

Pob lwc i Miss Meleri a Tom ar achlysur eu priodas ar ddiwedd y mis.

Hwyl fawr Blwyddyn 6

Mae'r amser wedi dod i ddweud ffarwel i ddisgyblion blwyddyn 6. Pob lwc i Gwion, Elona ac Elliw ym Mro Myrddin yn mis Medi a phob lwc i Osian a fydd yn dechrau yn Ysgol y Preseli. Diolch i'r disgyblion a'r staff am ei gwaith caled yn ystod y flwyddyn heriol sydd wedi bod. Mwynhewch y gwyliau ac edrychwn ymlaen i fis Medi.

YSGOL BECA

Dros Teams mae'r plant yr adran Iau wedi bod yn rhan o weithdai CISP. Gan taw'r ardal leol oedd ein thema mae'r plant wedi mynd ati i greu paneli comig am hanes yr ardal a bydd rhain yn cael eu harddangos ar dir yr ysgol. Hefyd gyda dyfodiad y cwricwlwm newydd mae'r plant wedi mynd ati i greu archarwyr y pedwar diben. Bydd yr Archarwyr lliwgar a deniadol yma yn ysbrydoli plant wrth ddysgu.

17eg o Fehefin



Daeth Catherine o Actif Cymru i ymweld â Llysgenhadon Efydd blwyddyn 5 a 6 sef Lois Rowlands a Cali Evans a'u cefnogi a'u canmol am eu gwaith rhagorol i hybu ffitrwydd yn yr Ysgol. Cyflwynodd dystysgrifau iddynt a chrysau T. Da iawn chi bois!

2il o Orffennaf



Ar yr 2il o Orffennaf aeth yr Ysgol gyfan ar drip i Fferm Maenhir. Cawsom ddiwrnod i'r brenin yno a chafodd y disgyblion gyfle i odro'r da, gweld bwyd yr anifeiliaid yn cael eu paratoi a reid ar dractor a treiler. Hoffwn ddiolch i Joe, Elinor a'r teulu cyfan am drefnu diwrnod bythgofiadwy.

8fed o Orffennaf

Mabolgampau tipyn yn wahanol cawsom eleni am nad oedd hawl gan rieni ddod i gefnogi oherwydd rheolau Covid. Serch hynny cawsom ddiwrnod bendigedig! Roedd y tywydd yn braf a'r plant wedi ymdrechu a llwyddo i ennill pwyntiau i'w llysoedd sef Merydd a Tudur. Blwyddyn Merydd oedd hi eleni a llongyfarchiadau i'r canlynol:

Mabolgampwyr Cyfnod Sylfaen: Lewis Roberts a Mason Clee

Mabolgampwraig Cyfnod Sylfaen: Lleucu Morris

Mabolgampwr Adran Iau: Tomos Davies



wythnos lles rhwng y 28ain o Fehefin a'r 2il o Orffennaf. Braff oedd gweld y plant yn cystadlu yn frwd, sypreis eleni oedd Gronw a Taf yn ennill ar y cyd. Enillwyr y nifer uchaf o bwyntiau oedd;

Bachgen blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 – Hayden Hughes, Sean Davis a Che Young.

Merch blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 – Mabli King

Bachgen Cyfnod Sylfaen – Jac Owen

Merched Cyfnod Sylfaen – Poppy Frost a Betsan Dent

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnos gan gynnwys; blasu ffrwythau, creu smwddi a mynd am dro yn ein hardal leol.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn sialens 'Her Cerdded'. Ein bwriad yw i gerdded 300milltir rhwng y 1af a'r 16eg o Orffennaf gan godi arian i'r ysgol. Os hoffech noddi y disgyblion cysylltwch â'r ysgol.

Llongyfarchiadau mawr i ddosbarth Lliwe am ennill y gystadleuaeth tyfu tato sydd yn cael ei chynnal yn flynyddol gan 'Grow Your Own Potatoes'. Mae'r dosbarth wedi ennill y pwysau trymaf yn genedlaethol ac mae gwobr teilwng iawn yn cyrraedd yr ysgol yn fuan.

Ar ddydd Iau, 8fed o Orffennaf aeth disgyblion dosbarth Gronw a Chynin am dro i Blasdŷ Maesgwynne. Cerddon nhw y llwybrau cyhoeddus o gwmpas y Plasdŷ ac yna cael picnic wrth y llyn.



YSGOL BRO BRYNACH

Croeso nôl i Miss Sian Bryan ar cyfnod mamolaeth.

Ers mis Mai mae dosbarthiadau Cynin a Gronw wedi bod yn gweithio'n ddiwyd gyda chwmni CISP er mwyn creu cymeriadau 4 diben ar gyfer y Cwricwlwm Newydd. Cafwyd gwaith arlunio da gan y plant a mwynhewyd y sesiynau yn fawr iawn. Wrth weithio ar y thema 'Ein Ardal Leol' mae'r plant wedi mynd ati i greu-comic o'r hanes. Bydd copi yn mynd ar dudalen trydar yr ysgol cyn hir.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae blwyddyn 6 wedi cael y cyfle i fynyachu'r ysgolion Uwchradd; Bro Myrddin, Dyffryn Taf a Preseli.

Cynhaliwyd ein Mabolgampau yn ystod



Dosbarth Gronw



Dosbarth Cynin

Aeth dosbarthiadau Sien a Lliwe i barc Meidrim, cafwyd amser da a mwynhewyd y picnic. Cafodd y plant hufen ia blasus i orffen y dydd.



Dosbarth Sien



Dosbarth Lliwe

Ar ddiwedd y flwyddyn rydym yn ffarwelio â blwyddyn 6 i'r ysgolion Uwchradd, pob lwc iddyn nhw. Rydym hefyd yn ffarwelio â Mrs Meirwen Evans, diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith dros y blynnyddoedd. Pob hwyl a phob lwc.



O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu barhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg, yn ddigidol ac wyneb yn wyneb, yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywodraeth parthed cyfyngiadau.

Picnic yn y parc ac adloniant gan Siani Sionc:

Llanboidy 25ain o Awst ceris@msgg.cymru
£1 y pen i blant dros 12 mis, bydd oedolion a babis hyd at 12 mis am ddim.

Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw gan fod nifer cyfyngedig yn gallu mynychu yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth.

Clwb Theatr Cymru:

Bydd Clwb Theatr Cymru yn dod â phlant Cymru ynghyd i fwynhau amrywiaeth o weithdai dros Zoom yn ystod gwyliau'r Haf. Bydd y sesiynau – sy'n cael eu trefnu gan Theatr Genedlaethol Cymru ac yn cynnwys cyfleoedd i ddawnsio, perfformio a chreu cymeriadau – yn addas i blant ysgolion Cynradd o flynyddoedd 2 i 6.

Mae'r sesiynau yn rhad ac am ddim. Cyslltwch gyda nia@msgg.cymru i gofrestru.

Helfeydd Trysor:

Edrychwn ymlaen at ail gyflwyno ein helfeydd trysor dros yr Haf. Mae'r Fenter wedi cydweithio gyda gwirfoddolwyr yr ardal i greu helfa drysor mewn 4 ardal yng Ngorllewin Sir Gâr, sef Llansteffan, Pont Tyweli, Caerfyrddin a Hendy Gwyn-ar-Daf. Felly dewiswch ardal a chysylltwch gyda gwawr@msgg.cymru er mwyn derbyn helfa. Bydd yr atebion yn cael eu cyhoeddi ar ddydd Llun y 30ain o Awst.

Cyfryngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diwedd-daraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

Pethau Olyv

Ffasiynau, gemwaith ac ategolion merch

Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230590
info@pethauolyv.co.uk

DENNIS JONES
A'I DEULU

SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU

Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561
Symudol: 07817 650858

MASON
BROS

GWASANAETH GWERTHU
PEIRIANNAU NEWYDD AC AIL-LAW

THE NORTON YARD,
LAMPETER VLFREY,
NARBERTH

Ffôn: 01834 831653 / 831553



Login
Hendygywyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk



Croeso i'n dewis o wibdeithiau, gwibdeithiau theatr, gwyliau byr a gwyliau ar gyfer 2021/2022
 Mae rhywbeth at ddant pawb. Gofynnwch am gopi o'n pamffled neu ewch ar-lein am fanylion llawn.
 Mae'r tîm yma yn Jones Login yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl ar fwrdd yn 2021 a thu hwnt.

Nifer y dyddiau			Nifer y dyddiau		
Awst			Mehefin		
Iau 5	Geriddi Dyffryn - Ymddiriedolaeth Genedlaethol	1	Gwe 10	Caerfaddon a Briste	4
Iau 19	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	1	Mer 15	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3
Maw 31	Taith Ddirgel	1	Sad 18	Gwibdaith Sir Benfro	1
			Sad 25	Yr Alban - Dumfries a Galloway	7
Medi			Gorffennaf		
Sad 4	Sioe Riverdance - Penblwydd 25, NDS	1	Sad 9	Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC	1
Iau 9	Paint a picture in Constable Country	5	Llun 11	'From a Lofty Height to the Isle of Wight'	5
Sad 11	Aberhonddu a	1	Maw 19	Sioe Frenhinol Cymru	1
	Chanolfan Arddio Y'r Hen Rheilffordd, Three Cocks		Mer 20		
Mon 27	Devon on Earth	5	Iau 21	Llandudno	5
Hydref			Awst		
Mon 4	Gwesty Warner - Neuadd Thoresby	5	Llun 1		
Thu 14	Concorde, Castles & Codebreakers	5	Mer 3	Eisteddfod Genedlaethol	1
Wed 13	Cyngerdd Daniel O'Donnell, NDS	1	Gwe 5		
			Gwe 5	BBC Countryfile Live - Castell Howard Swydd Efrog	4
Tachwedd			Medi		
Llun 15	Noson yng Nghwmni :-	1	Llun 5	Ardal y Llynnoedd	5
	Tim Peake - Fy'n Nhaith i'r Gofod, NDS		Llun 12	Eastbourne	5
Iau 18	Cyngerdd Katherine Jenkins, NDS	1	Gwe 23	Melton Mowbray - Ardal y 'Pork Pie'	4
Rhagfyr			Hydref		
Sad 4	Sioe Gerdd - Strictly Ballroom, CMC	1	Llun 3	Iwerddon - Cylch Kerry a Dingle	6
Sad 4	Nadolig Windsor	2			
Sad 11	Sioe Gerdd - Beauty & The Beast CMC	1			
Sad 11	Longleat - Gwyl Olau	2			
Sad 11	Siopa Nadolig Trago Mills, Merthyr	1			
Iau 23	Nadolig yn Bournemouth	5			
Ionawr 2022			<u>Mynegai math o daith a lleoliadau:</u> Gwibdaith / Gwibdaith Sioe neu Chyngerdd Gwyliau Byr a Gwyliau CMC = Canolfan Mileniwn Cymru / NDS = Neuadd Dewi Sant / AMC = Arena Motorpoint, Caerdydd		
Sad 8	Sioe Gerdd - Beauty & The Beast, CMC	1			
Gwe 21	Riviera Lloegr - Cynheswr y Gaeaf, Gwesty Palace	4	Llyfryn 2021/2022 ar gael nawr! Ffoniwch 01437 563277 i fynegu gopi neu gwelwch ar lein @ https://images.joneslogin.co.uk/PDFs/2021brochure.pdf Gwasanaethau eraill: Bysiau 8 - 70 sedd i'w llogi ar gyfer busnes neu bleser. Teithlenni wedi'u gwneud yn benodol, trefniadau a chyflenwad gwasanaethau trydydd parti fel tocynnau a llety ar gyfer gwibdeithiau, teithiau a gwyliau i grwpiau preifat a sefydliadau. NEWYDDION Cyfleuster archebu ar-lein ar gael nawr !!!		
Sad 22	Sioe Gerdd	1			
	The Lion, The Witch & The Wardrobe, CMC				
Chwefror					
Gwe 18	Riviera Lloegr - Cynheswr y Gaeaf, Gwesty Palace	4			
Ebrill					
Llun 4	Efrog - 'A Ramble in the Shambles'	5			
Sad 9	Sioe Gerdd - We Will Rock You, CMC	1			
Mai					
Sad 7	Sioe Gerdd - Six The Musical, CMC	1			
Sad 7	Saffari Siocled	2			
Llun 9	Iwerddon - Sligo a'r 'Wild Atlantic Way'	6			
Llun 16	Lock, Stock a'r BBC	5			
Sad 21	Sioe Gerdd - School of Rock, CMC	1			
Llun 23	Gwesty Warner - Neuadd Alvaston	5			
Sad 28	Sioe Gerdd - Singin' in the Rain, CMC	1			



Gellir trefnu Mordeithiau Fred Olsen ar eich rhan. Mae argaeledd a phrisiau ar gais a byddent yn cynnwys trosglwyddiadau o drws i ddrws ac o'r porthladd. Ewch i:
www.fredolsencruises.com

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!!



**ARBENNIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**

MOT

♦CEIR♦BEICIAU MODUR♦FANIAU♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf





ARBENIGWYR LAND ROVER YN SAN CLÊR, SIR GÂR
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SBAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

CYMORTH CRISTNOGOL : CYLCH BECA

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau ar gyfer 2021

Capeli / Eglwysi / Unigolion

Bethesda Llawhaden	£25.00
Blaenconin	£80.00
Calfaria Login	£150.00
Cefn y Pant	£100.00
Eglwys Dewi Sant Clunderwen	£42.00
Eglwys y Santes Fair Maenclochog	£100.00
Eglwys Tysilio Sant Llandysilio	£20.00
Glandwr	£75.00
Hebron	£25.00
Horeb	£50.00
Llandilo	£150.00
Nebo	£50.00
Pisga Llandysilio	£200.00
Rhydwilym	£120.00
Seilo	£20.00
Tabernacl, Maenclochog	£250.00
Unigolion	
Eirianwen a Ken Thomas	£50.00
Ann Morris	£25.00
Petra Davies	£25.00
CYFANSWM	£1,557.00



George's
o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lâr - Diodydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 21.30**
**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**
**Heol yr Orsaf,
San Clêr**



TOSTRWYDD

Ar fore gwlyb a'r gwely wedi rhoi rhyw gwsig digysur,
fe ddaeth yn amser doeth i ganu'n hyfryd iach
dros dro i leddfu poenau'r corff
a'm dygnodd drwyddi - draw.

Blinderau dwys o'r copa blin
hyd fysedd llipa'r traed.

Pen trwm yn pylu'r miniog feddwl gynt
a hwnnw'n f'ymlid fel rhyw fleiddgi dig.
Dwy ysgwydd 'styfnig fel haearnaidd byst
a'r gwegil fel rhyw biler blin
na fedr droi o un cwr i'r llall.

Ond mae'r cefn yn hyfryd dawel iawn
ar ôl llyncu'r cryf gemegau'n llwyr
a diolch fyth am hyn, yn wir
wrth geisio symud hoelion fysedd yn eu plyg
a wrthwyd i mi afael gref yn f'ysgrifbin nawr heb
ddirfawr boen.

Ac nid yw hyn yn ddigon ddogyn o artaith enbyd iawn,
can's nid yw'r coesau bregus greithiog fyth
yn ateb 'ngalwad i'w rhoi'n rhwydd ar lawr
heb droi croch ochneidiau'n wich.

Ie dyma yw 'nghorfforol stâd

Wn i a ddaw i'm rhan fy llwyr iachâd?

T.W.G.

Cornel Garddio gan W John Davies

Dyma fi yn eistedd i ysgrifennu ar y 3ydd o Orffennaf. Mae'n ddiwrnod cymylog a llaith a diolch am hynny oherwydd mae haul crasboeth y misoedd diwethaf wedi bod llawer rhy danbaid i blanhigion gael siawns i ddatblygu'n gryf. Felly mae bron popeth ychydig yn hwyrach nac arfer eleni - mae'r cinabens erbyn hyn yn edrych yn ffafriol, ond dyma air bach yn dawel i'r rhai sydd yn eu tyfu. Rwyf wedi tyfu'r rhain gydol fy mywyd ond eleni rwyf wedi sylweddoli beth sy'n achosi'r blodau i gwmpo bant. Os sylwch ar y planhigion, y mwyaf yw maint y dail, y mwyaf yw rhif y blodau sydd yn tueddu i gwmpo. Mae hyn yn awgrymu bod gormod o wrtaith yn y pridd cyn plannu yw'r rheswm. Fel dynol ryw, y mwyaf bodlon ein byd rydym, llai o ymdrech a wnewn i fyw ac mae'r egwyddor hyn yn wir am bob planhigion yn y byd hefyd. Felly llai o wrtaith cyn plannu'n gynnar yw'r gyfrinach er mwyn cael gwell cnwd. Yna digon o ddŵr ac wedi i'r blodau ddatblygu, porthwch hwy gan gofio fydd tipyn o straen arnynt nes ymlaen yn y tymor. Trwy hap a damwain sylwais fod camgymeriad yn yr erthygl yn rhifyn 413 o'r Cardi Bach, lle roeddwn yn trin tyfu panas. Yno awgrymais i gael ansawdd y calch yn y pridd lan i 6.9 P H, pryd dylai hyn fod yn 9.6 P H. sy'n dipyn o wahaniaeth. I gymharu, mae tato'n tyfu'n well mewn pridd o ansawth 5.6 PH a lwcus fy mod wedi sylwi oherwyth cymorth i arddwyr newydd yw bwriad yr erthyglau yma. Unrhywun sydd am esboniad ychwanegol, peidiwch ofni codi'r ffôn ar 01994 240059 neu anfonwch e-bost ac os gallaf helpu, fe wnaif.

Mae canol mis Gorffennaf yn amser pwysig os oes genych rychau o dato sydd yn dal yn loyw ac yn wyrdd. Mae'n hawdd cael gwared y ffwng (blight) trwy eu chwistrelli a chymysgedd o ddŵr a llaeth llawn hufen (tri mesur o ddŵr ac un o laeth). Mae hwn yn effeithiol iawn, a gall ddileu problem yn hawdd am fis a mwy sy'n rhoi digon o amser i'r tatw ddyblu eu cnwd. Wedi chwistrelli, ewch allan eto gyda'r nos, mewn hanner golau dydd ac fe welwch fod dail y tato wedi cau i fyny. Nawr mae'n hawdd chwistrelli o dan y dail sydd yn effeithiol iawn a gwerth ei wneud. Os oes genych le gwag allwch hau moron a betis ar unwaith a bydd rhain, gyda lwc yn barod i'w tynnu mis Tachwedd ac yn flasus iawn. Mae hefyd yn amser delfrydol i drawsblannu cennin ac unrhyw fresych sydd genych.

Amser hyn o'r flwyddyn mae'n hawdd gwreiddio bron unrhyw blanhigion o'ch dewis. Tociwch tua deg modfedd o gangen yn syth o dan ddeilen, yna torrwch y dail sydd yn weddill i gyd i ffwrdd gan adel ond dwy ar y pen. Yna gwrthiwrch y cwbl i'r pridd mewn lle cyfleus yn yr ardd, gan ei orchuddio o fewn dwy fodfedd i'r ddwy ddeilen, a gyda lwc bydd hon wedi gwreiddio erbyn amser hyn flwyddyn nesaf.

Rhyw ddeuddeg mlynedd yn ôl mi blannes goeden yn yr ardd gefn. Pryd hynny yr oedd tua chewch droedfedd o uchder ond erbyn heddiw mae'n ddeuddeg troedfedd

ac mae'r brigau oddeutu chwe throedfedd o led. Pob Gwanwyn mae'n llawn blodau bychan gwyn ond dim ond am ryw bythefnos, ac wrth i rhain wywo a chwmpo, mae'r dail yn dod allan yn liw tywyll. Dail bychan ydynt a dros ryw fis mae'r dail yn troi'n wyrdd. Mae hyn yn bwysig gan fod dail mawr yn dueddol o lanw'r gwteri a rhwystro'r dŵr, ac erbyn hyn mae'n llawn hadau coch sydd wedi aeddfedu.

Yn hynod iawn ddechrau Gorffennaf mae'r aderyn du lleol a'i wraig yn cymryd trosodd. Mae'r ddau yn bwyta llawn bol dwywaith bob dydd a heb os nac oni bai, maent yn bwydo nythed o adar bach mewn nyth gudd gerllaw. Erbyn diwedd y mis byddant wedi bwyta'r holl hadau, ond mae natur yn glyfar iawn. Mae pen pella'r brigau yn rhy wan i ddal eu pwysau ac mae'r hadau hyn yn cael llonydd i aeddfedu. Mae'r goeden hon bymtheg troedfedd o ffenest y gegin acw, ac yn bersonol rwyf wedi cael pleser mawr yn ei gwylio dros y blynnyddoedd. Mae'r goeden hon sydd a'r enw Lladin 'Amelanchier Formanni' yn drysor i fi a'r wraig ac yn amhrisiadwy i'r bywyd gwyllt yn ein hardal ni.



PASTAI CENNIN a THATWS

Cynhwysion:-

- 1 ½ pwys o datws • 8 owns o facwn •
- ½ peint o hufen sengl • Caws wedi ei gratio
- 1 ½ pwys o gennin • 3 wy

DULL

1. Twymwch y ffwrn i 180°C / 350°F / Gas 4
2. Glanhau'r tatws a'u torri yn sgwariau bach, yna eu berwi nes eu bod yn feddal.
3. Sleisio'r cennin yn ddarnau un modfedd a'u rhoi mewn dysgl coginio.
4. Sleisio'r bacwn yn ddarnau, ychwanegu at y cennin – cymysgwch yn dda gan flasgu gyda halen a phupur.
5. Chwipiwrch yr wyau a'r hufen ac arllwyswch i'r gymysgedd.
6. Rhowch y darnau tatws ar y top gan ychwanegu'r caws wedi ei ratio.

Coginiwch am tua 50 munud

PWDIN ar ôl Cinio

Cynhwysion:-

- 2 owns o siocled plaen • 1 owns o fenyn
- 2 owns o siwgrw eisyn • 2 owns o gacen spwng wedi mynd yn sych • 1 llwy fwrdd o rum.

DULL

Cymysgu'r menyn a'r siwgrw eisyn yn dda.

Toddwch y siocled, yna ychwanegwch y rum a'u cymysgu a gadewch i oeri.

Gwnewch beli bach o'r gymysgdd, eu rhwlio mewn coconut neu bowdwr cocoa.

Rhowch mewn papurau lliwgar a'u caledi yn y rhewgell.



Y freuddwyd fawr



CYSTADLEUAETH Cyflwr i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenhaf

Mae Mam-gu Ier-wen yn breuddwydio am yr holl anifeiliaid
mae'n arfer gweld yn Sioe Fawr y Fro
Fedrwch chi ddyfalu faint o'r anifeiliaid gwahanol
welodd hi yn ei breuddwyd?



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 8/8/21

Enillydd Cystadleuaeth MIS Mai: Gosbarth Arthur, Ysgol Griffith Jones

Ateb: 1-Gart y llew, 2-Blodyn neidr, 3-Clychau glas, 4-Blodyn menyh, 5-Llygad y dydd, 6-Batwen cryt, 7-Llygad doli.

Mae Wenhaf yn gynllun addysgol cynhwyslawn ar gyfer y Cynod Sylfaen.
Cyhoeddi'r gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r Bwrdd: Ulric Mai © 2021



Ilydd enw enillydd y cystadleuaeth
yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn
nesol.



Y CARDI BACH CLWB 200



£500, £300, £200 a £100



A llawer o wobrwyon llai i'w hennill bob Mis Chwefror
Helyd cyfle i ennill naill a'i £20 neu £10 deng waith y flwyddyn
Cewch gyfle i ennill £5 wrth ddatrys pŵs neu gwis John Arfon ym rhob rhifyn

Anmwyf firindiau

Gobeithio y gwnewch ymuno â'r CLWB 200 eleni eto. 'Rwyf yn ddolchgar iawn i bob un ohonoch sydd yn aelodi'n ffyddlon, ac yn gwerthfawrogi eich parodrwydd i gelnogi 'Y CARDI BACH' bob blwyddyn. Fel y gwyddoch, mae'ch cefnogaeth yn aghennrheidiol i sicrhau dyfodol ein papur bro.

Felly danfonwch y ffurflen gais isod, (neu yr Archeb Banc a welwch drosodd, neu defnyddiwch y manylion banc os ydych am dalu o'ch banc ar eich cyfrifiadur) os gwelwch yn dda, er mwyn bod yn siwr o gael pob cyfle i ennill y gwobrwyon misol.

Roedd 640 o aelodau yn 2020 ac fel trysorydd y clwb, edrychaf ymlaen am flwyddyn lewyrchus unwaith eto.

Pob hwyl a ddiolch yn fawr,

Rhian

Yn ogystal â siec ac arian, mae croeso i chi dalu, os ydych yn dewis drwy
Archeb Banc (trosodd) neu taliad ar-lein (BACS)

Manylion y Cyfrif : Cŵd didoli - 40-46-27 Rhif y Cyfrif - 91020765

PWYSIG!! Cofiwch ddefnyddio'ch enw fel cyfeirnod (reference)

Clwb 200 Y Cardi Bach - 2021

Amgaeaf £10 er mwyn ymuno â'r Clwb 200 (Sieciau yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach')

Enw / Enwau _____

Cyfeiriad _____

Cŵd Post _____

Llofnod _____ Dyddiad _____

Cofiwch os yw'ch amgylchiadau wedi newid (e.e. cyfeiriad, enw tŷ a.y.y b.), rhwng wybod i mi

Ticiwch
os yn talu
drwy BACS



Anfonwch y ffurflen i: *Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr. SA33 4JZ*
Ffôn: 01994 231338 - e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk



Y CARDI BACH CLWB 200



ARCHEB BANC

I Fanc

Cangen

Cyfeiriad

.....
.....

*Talwch os gwelwch yn dda i

Fanc HSBC plc
15 Stryd Lammas
Caerfyrddin
SA31 3AQ

Rhif didoli:

40	46	27
----	----	----

Rhif Y CYFRIF: **91020765**

Enw'r cyfrif: CLWB 200 Y CARDI BACH

Y swm o £10 ar y 1af o..... 2021 a'r un swm o hynny ymlaen ar y 1af o Ionawr, bob blwyddyn hyd y byddaf yn dileu yr archeb hon yn ysgrifynedig.

Enw:

Cyfeiriad:

.....
Côd Post:

Enw'r Cyfrif:

Rhif y Cyfrif

Llofnod: Dyddiad:

Anfonwch y ffurflen at: Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr. SA33 4JZ

Ffôn: 01994 231338 • e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk



Gŵyl y Dysgwyr 2021

Am yr ail flwyddyn yn olynol rhaid oedd cynnal Gŵyl y Dysgwyr Rhithiol eleni eto a da yw gallu dweud ei fod wedi bod yn ddiwrnod llawn a llwyddiannus ar ddydd Sadwrn, 19eg Mehefin. Ymunodd nifer dda iawn o ddysgwyr o Sir Benfro ynghyd â rhai o ardaloedd eraill o Gymru, Lloegr a thu hwnt! Bu'r sesiynau dros Zoom yn gymysgedd o rai byw a chyfle i wyllo fideos a rhannwyd y cyfan ar Facebook gan roi cyfle i gynulleidfa ehangach fwynhau'r arlwy. Dysgu Cymraeg Sir Benfro a Menter Iaith Sir Benfro oedd yn cyd-drefnu a'r cyd-weithio da wedi sicrhau diwrnod hwy-lus. Trefnwyd gweithgareddau amrywiol yn ystod y dydd.

Braf oedd gallu cwrdd â dau sydd wedi ei gwobrwyo am ddysgu'r iaith. Roedd seremoni Dysgwr y Flwyddyn a'r Wobr am Ymdrech Dda o dan ofal Siân Griffiths a chyflwynwyd y gwobrau i Sophie Tuckworth a Philip Keogh. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant. Ymlaen â ni nawr i drefnu Gŵyl y Dysgwr 2022.

Cwis Dim Clem

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu 10 o Ysgolion Cynradd y Sir yn cystad-lu yn ein Cwis Dim Clem sy'n cael ei threfnu gan Mentrau Iaith yn flynyddol. Llynedd tîm Ysgol Cilgerran ddaeth i'r brig ac ennill gan fynd ymlaen i gynrychioli Sir Benfro yn y ffeinal Rhanbarthol.

Eleni - Ysgol Brynconin daeth i'r brig yn Sir Benfro.

Eleni am y tro cyntaf, cafwyd ffeinal yn genedlaethol gyda 17 o ysgolion ar draws Cymru..

Ysgol Gynradd Brynconin oedd yn cynrychioli Sir Benfro yn y ffeinal ac wedi cael sgor parchus iawn ond yn anffodus heb gyrraedd y tri uchaf dros Gymru - ond ddim yn bell tu ôl gyda'i sgor chwaeth!



Tîm Ysgol Brynconin!

Digwyddiadau i blant dros yr haf.

Mae Menter Iaith Sir Benfro yn edrych ymlaen at gyd-weithio gyda Menter Gorllewin Sir Gâr dros adeg yr Haf i drefnu digwyddiadau wyneb i wyneb yn arbennig i deuluoedd â phlant bach. Bydd 'Picnic yn y Parc' yn cael ei gynnal ym Mharc Llanboidy ar y 25ain o Awst. I ymuno yn yr hwyl a sbri bydd angen i chi gofrestru eich lle o flaen llaw.

Gwylwch allan am fwy o fanylion am y gweithgareddau ar dudalen facebook Menter Iaith Sir Benfro neu cysylltwch gyda:
bethan@mentersirbenfro.com neu dafydd@mentersirbenfro.com

Penblwydd Hapus



Penblwydd Hapus i Caleb Wyn Snelson, Caerfyrddin a fydd yn 10 oed ar y 7fed o Awst. Cariad mawr wrth Dad a Mam; Gwilym; Osian; Tadcu a Mamgu; Taid a Nain Dinbych a'r teulu oll.



Penblwydd Hapus i Beca Haf Leeke o Hensol a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 6 oed ar Orffennaf 6ed. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn, Pwll Trap), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd hapus i ti Cai ar dy benblwydd yn 10 oed ar Awst 18fed. Cariad mawr wrth Dad; Mam ac Andrew, Jac a'r teulu i gyd xxx

PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus iawn i Lloyd Hart a Mari Saer Hart. Roedd Lloyd yn 10 oed ar Fai 21ain a Mari yn 2 oed ar 11eg o Fehefin. Plant Iestyn a Buddug, ŵyr a wyres Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach. Hefyd i Glyn Matthew Biggs oedd yn 7 oed ar 21ain o Orffennaf, brawd bach Rhys - mab Meleri a Stuart Biggs ac yn ŵyr i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon. Penblwydd Hapus iawn iddynt, cariad mawr oddi wrth y teulu i gyd.

Pen-blwydd Hapus i Gwilym Huw yn 2 oed ar Orffennaf 30ain. Cariad Mawr oddi wrth, Mami, Dadi, Gruffudd Llewelyn, Mam-gu a Dad-cu Waunfach Login, Mam-gu Price Sanclêr a Grandma a Grandpa Ffairfach.



Penblwydd hapus iawn i Megan Ela Rees o Tymawr, Pentregalar, Crymymch sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 6 oed ar Awst y 6ed. Cariad mawr, wrth, Dad, Mam, Gwen, Lleucu, Mamgu a Dadcu Golygfa'r-Cwm, Mamgu a Dadcu Tymawr a'r teulu i gyd xx



Penblwydd Hapus iawn i Tomos Wyn Morris, Cefnonnen, Alma a ddathlodd ei benblwydd cyntaf ar y 17eg o Orffennaf. Lot fowr o gariad, Mam, Dad, Dadcu Llandysilio, Nana a Dadcu Alma a'r teulu i gyd xxx



Penblwydd Cyntaf Hapus Aneurin. Cariad mawr, Dadi, Mami, Luned, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch.

**Penblwydd
Hapus!**

Penblwydd Hapus i Llion mab Rhydwyn a Helen Davies, Crymymch a brawd bach i Steffan a fydd yn 10 oed ar Awst 15fed. Mae Llion yn Wyr i Heulwen a Raymond Morris, Aberteifi ac Audrey Davies, Crymymch.